

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

The image displays a musical score for a folk song, featuring five staves of music. Each staff includes a treble clef, a key signature of one sharp (F#), and a time signature. The lyrics are written in Welsh and are placed below the corresponding musical notes. The staves are arranged diagonally across the page.

Staff 1: Doh G. { .s : m .s | d } : - .d : r .d, l, | s,
 Mae'r hon a gar fy ngha-lon i

Staff 2: { | r : .s : m .s | d } : - .d : r, d, l, | s,
 byw; A hiraeth am ei gweled hi A

Staff 3: { | s : s : - .s | s : s : s | s : s : - | - : }
 Cyfoeth nid yw ond o - fe - redd . .

Staff 4: { .s : m .s | d } : - .d : r .d, l, | s,
 (The lyrics for this staff are partially cut off at the bottom of the image.)

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion:

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd:

Dr E. Wyn James

Is-Gadeirydd:

Dafydd Idris Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rcg01d@quikmail.co.uk

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth, Ceredigion
SY23 2HX

☎ (01970) 610160

Llun a chynllun y clawr: Einion Dafydd

Rhifyn 32 - 2009

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol Y Cylchgrawn yn gant!	5
‘Yn Saint-y-Brid mae ’nghariad’: Y Gân Werin, y Cathreiwyr a’r Hynafiaethydd (Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2008) Allan James	7
Cân arall o gasgliad Tal Griffith Buddug Lloyd Roberts	21
Sarah Jacob, Sarah Hughes, a gweithwyr ffatri yn swydd Ayr: lle merched ym maledi Huw Roberts ‘Pererin Môn’ Rhiannon Ifans	23
Prison Bars Tegwyn Jones	41
Rhagor o rigymau Dolgellau a’r cylch Olwen Clough a John Clough	47
Golwg gyfoes ar y Canu Mai Rhiannon Ifans	51
Lona Green Rhidian Griffiths	65
Adolygiadau: Gwenan Gibbard, <i>Sidan Glas</i> <i>Bob Roberts ‘Tai’r Felin’ gyda John Thomas ‘Maesyfedw’</i> <i>a thrac ychwanegol gan Moi Tai’r Felin ac Arthur D. Jones</i>	66
Trem yn Ôl	68

Golygyddol

Y CYLCHGRAWN YN GANT!

Yng Nghymru mae gennym draddodiad hyfryd o barchu henaint a hynafiaeth. Deellais hyn am y tro cyntaf wrth ddarlennu adran swynol o 'Culhwch ac Olwen', ein chwedl ganoloesol fwyaf hynafol. Ynddi adroddir hanes milwyr Arthur yn dynesu at bob un o'r Anifeiliaid Hynaf yn eu tro. Un o'r rheini oedd Eryr Gwernabwy. Yr oedd Eryr Gwernabwy er pan oedd yn ifanc wedi sefyll ar ben carreg arbennig i bigo'r sêr bob hwyrnos, ond fe safodd arni gyhyd, prin cymaint â dwrn oedd ei huchder bellach – prawf digamsyniol o hynafiaeth, ac felly o ddoethineb, yr Eryr.



Yn yr un modd dylem ddotio at ganrif gyntaf ein cylchgrawn. Yn y dyddiau cynnar bu'n cyndadau 'yn y ffydd' (neu yn y gân) yn cynllwynio ac yn cynllunio. Sut gylchgrawn ddylai hwn fod? Eu harwyddair cyhoeddedig, un a argraffwyd yn eglur ar glawr blaen y cylchgrawn cyntaf yn 1909, oedd y ddau gwpled a ganlyn:

Moes erddigan a chanu,
Dwg i'n gerdd, deg awen gu,
Trwy'r dolydd taro'r delyn,
Oni bo'r ias yn y bryn.

Rhestrwyd rheolau diamwys ynghylch nod Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, a nodwyd y dylai'r Gymdeithas gasglu a chadw caneuon gwerin Cymraeg, carolau a baledi Cymraeg, ac alawon Cymreig, a chyhoeddi 'such of these as may be deemed advisable'. Saesneg oedd iaith trafodaeth o fewn y cylchgrawn, Saesneg oedd iaith y rhestr amcanion, ond Cymraeg oedd iaith y caneuon. Mae arnom ddyled ddifedur, felly, i'r sawl oedd yn medru adnabod a dosbarthu caneuon ein gwlad yn categorïau, ac yn medru adnabod pwysigrwydd yr adran werin honno o'n caneuon yn ddigonol i'w cywain ynghyd a'u cyhoeddi, er nad oeddynt yn ddigon hyderus i drin a thrafod y categori hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhybuddiwyd ganddynt yn erbyn cynnwys alawon estron yn y casgliad Cymreig, am resymau amlwg. Rhybudd arall oedd i beidio â chynnwys alawon a oedd wedi'u cyfansoddi, a heb ennill cydnabyddiaeth iddynt eu hunain fel alawon gwerin, yn y casgliad. Gwrthodwyd lle yn nhudalennau'r cylchgrawn i sawl alaw boblogaidd, gan gredu bod 'still some ungathered gold of Welsh song among the Welsh hills'.

Y caneuon cyntaf erioed a gyhoeddwyd yn y Cylchgrawn cyntaf erioed oedd casgliad o ganeuon gwerin a anfonwyd i Eisteddfod Llangollen yn 1858, casgliad Llewelyn Alaw,

ac fe'u hailgyhoeddir yma yn dysteb i draddodiad cerddorol cynhenid Cymru. Yn rhifynnau cyntaf y Cylchgrawn teimlwyd nad oedd yn briodol cynnwys geiriau'r caneuon yn llawn, ond mewn rhifynnau diweddarach gwnaed iawn am y diffyg hwnnw. Ymhellach, gwnaed cais ar i'r aelodau anfon gwybodaeth ynghylch y caneuon a'r geiriau a gyhoeddwyd, a chynhwyswyd yr wybodaeth honno wrth iddi ddod i law'r golygydd.

A dyna'r sefyllfa hyd y dydd hwn. Mae mwy o ganeuon sydd eto i'w diogelu ar y tudalennau hyn, a mwy o wybodaeth i'w chyhoeddi ynghylch ein caneuon, ein carolau, ein baledi, a'n halawon. Ond wrth gwrs mae angen cyfranwyr ar bob cylchgrawn, a'n braint ni yw cynnig cyfraniadau yn ysbryd yr hen gyfarwyddyd o sut gylchgrawn y dylai hwn fod. Pleser (a rhyddhad) o'r mwyaf gennyf yw fod ysbryd y sylfaenwyr yn dal i dreiddio drwy'r cyhoeddiad hynafol hwn. Parheir i gredu mai rhan o drefnadaeth oludog ein gwlad yw ei chaneuon gwerin, caneuon y bobol. Awn ati i'w casglu, eu cyhoeddi a'u cyflwyno o'r newydd, a mwynhau eto ias y gân.

Darlith Goffa Amy Parry-Williams
Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch,
Awst 2008

‘YN SAINT-Y-BRID MAE ’NGHARIAD’:
Y GÂN WERIN, Y CATHREIWR A’R HYNAFIAETHYDD

Allan James



Mae'r ddarlith eleni yn un o'r gweithgareddau atodol hynny a gynhelir yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch. O ganlyniad, mae'n briodol fod y pwnc yn adlewyrchu agweddau ar gyfoeth y byd gwerinol yn y rhan arbennig hon o Gymru. Gan ein bod o fewn cyrraedd hwylus i Fro Morgannwg, ei meysydd ffrwythlon a 'heddwch huawdl byd yr ych a'r menni', gallwn uniaethu â'r byd gwerinol hwnnw y bu Iorwerth Peate yn ei gysylltu â'r 'Men Ychen' a leolid yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Nid anghofir, ychwaith, y tribannau brodorol a ystyrid nid yn unig yn rhan allweddol o *repertoire* cerddorol y cathreiwyr wrth aredig gyda'i ychen, ond a fu'n gyfrwng i ddifyrru gwahanol gynulleidfaoedd gwledig gyda'r hwyr, eu sain yn 'fyrdon crwth y nos'. Ac eto, er mai adlewyrchu bywyd y Fro a wna cynifer o'r tribannau, maent hefyd yn enghreifftiau trawiadol o'r math o brosesau a fu'n dylanwadu ar ganeuon gwerin amrywiol iawn eu tras a'u pwyslais. Proses hollol naturiol oedd i'r triban grwydro, fel y gwnaeth caneuon gwerin eraill, a'r crwydro cymunedol hwnnw dros amser yn creu cronfa o amrywiadau testunol a thafodieithol. Hynny yw, byddai'r gwerinwr wrth ddiwyddu ar ei gof ac wrth osod ei stamp ei hun ar ambell bennill, yn newid gair neu ymadrodd pe bai'r cof yn methu, neu petai'n mynnu dilyn ei fympwy ei hun. Crëwyd, o ganlyniad, gorff o amrywiadau newydd. Mae'n rhaid cofio, ar yr un pryd, nad yw'n briodol i ni gyfeirio at unrhyw amrywiad fel y fersiwn cydnabyddedig, safonol yn ystod y cyfnod o drosglwyddo llafar am fod yr holl amrywiadau yr un mor ddilys â'i gilydd.

Dyna, wrth gwrs, arwyddocâd y triban a nodir yn nheith y ddarlith:

Yn Saint-y-Brid mae 'nghariad,
Yn Saint-y-Brid mae 'mwrriad,
Yn Saint-y-Brid mae merch fach lân,
Os caf hi o flân y 'ffearad.¹

Erbyn hyn, mae lleoli'r ferch ym Mhontypridd yn ddigon cyffredin ac mae gwahanol fersiynau o'r gân yn cadarnhau bod y triban wedi teithio tua dwyrain y sir ar ôl cyfnod Iolo Morganwg.² Yn ychwanegol at yr amrywiad hwnnw, tua chanol y chwedegau bûm yn sgwrsio â Herbert Davies o Bont-rhyd-y-fen, ger Castell-nedd, un o hoelion wyth parti cerdd dant y cylch, a mab Samuel Davies (Sam y Delyn), telynor a oedd yn ffigwr digon adnabyddus yn yr ardal ac a fyddai'n canu'r delyn ar stepen ei ddrws mewn stryd

ddidraffig a chymharol dawel. Cefais fenthylg llyfr nodiadau Sam y Delyn ac yno ymhlith cyfres o wahanol ganeuon a phenillion, roedd fersiwn pellach o'r un triban Ioloaidd, fersiwn wedi'i addasu ar gyfer y gymuned honno ac er mwyn ateb gofynion y mydr. Roedd y math hwn o amrywiad, wrth reswm, yn nodweddiadol o brosesau organig y traddodiad llafar, ac o'r math o addasiad a fyddai'n rhan o dactegau'r baledwr wrth iddo symud o le i le:

Yn Rhydyfen mae nghariad,
Yn Rhydyfen mae mwriad,
Yn Rhydyfen mae merch fach lân
Os ca hi o flâ'n y Ffeirad.

Affraid ychwanegu nad oedd y triban arbennig hwn yn unigryw yn hyn o beth am fod modd dangos sut y bu i benillion eraill grwydro yn yr un modd, ac mae'r testun ei hun yn brawf o hynny. Ffarweliwyd, er enghraifft, â 'Llangyfelach Lon' yn y faled enwog er bod fersiynau eraill yn cyfeirio at adael Caernarfon a Chasnewydd.

Yn hanes caneuon eraill, fodd bynnag, ceir bod gwahanol enghreifftiau o'r un gân yn amrywio o ran geirfa a chynnwys gan greu fersiynau sy'n bur wahanol i'w gilydd. Dyna ganlyniad y trosglwyddo llafar sy'n caniatáu'r math hwnnw o wahaniaethu testunol a chymunedol. Yn wir, wrth fod cân yn datblygu gellid ychwanegu ati yn ogystal â'i thrwsio a'i haddasu, gan greu, o ganlyniad, nifer helaeth o amrywiadau, weithiau wedi'u seilio ar un fformwla boblogaidd. Ar wahân i gyfresi o driodd, digon naturiol oedd canfod nifer helaeth o dribannau sy'n trafod merched y gwahanol gymunedau a nifer ohonynt yn ffug ddilornus yn unol â'r pwyslais a ddisgwylyd yn y math hwnnw o bennill. Gellid tybied mai'r nod fyddai tynnu sylw at wendidau cymdogion cymunedau cyfagos ac mae'r arddull yn adlewyrchu bwrllwm a mwynhad y cyfansoddi a'r perfformio:

Mae merched balch y Coety
A'u bwriad ar briodi,
Heb flanced gwely yn y byd
A'u gyna'i gyd heb dalu.³

Mae merched yn y Llwyni,
Yn ynydd gwyllt am garu;
A dodi'r galwad yn y Llan,
Gael yn y man briodi.⁴

Mae merched bach y Blaena
Yn gwisgo cap a lasa,
Mytw our ar ben bob bys
A chwt eu crys yn llapra.⁵

Tuedd arall ddigon cyffredin fyddai gweld golygydd parchus yn cyflawni gwaith saniteiddiol eithaf anghydfurfiol ei naws cyn bod triban neu gân yn gweld golau dydd. Yng ngeiriau James Reeves:

It had long been known to editors of songs from the 'peasantry' ... that while the tunes were often of rare beauty and purity, the words were far from acceptable to the taste of the polite world... Despite the efforts of puritans to suppress all this, it had persisted; and the evangelical churches in the nineteenth century had combated, or at least frowned on, the public expression of anything unfit for a choir supper.⁶

Mewn triban a gofnodir ar ddalen rydd yn un o lawysgrifau T. C. Evans (Cadrawd), hanesydd a chasglwr llên gwerin a drigai ym mhentref Llangynwyd ger Maesteg, ceir cyfeiriad penodol at bechadur o air, sef y gair 'tîn', sy'n adlewyrchu parchusrwydd cyfdeithasol y cyfnod:

Colloquial Welsh but very vulgar. Perhaps not fit for printing. I heard this about 30 years ago:

Fi gwnas acha bora –
Fi wnetho fargan ddech, –
Fi brynas fochyn gan ryw ddyn –
A thwll ei dîn yn isha.⁷

Hyd y gwelais, ni chyhoeddwyd y triban 'vulgar' hwn mewn unrhyw gyfres gyhoeddedig, o leiaf nid yn y ffurf amrwd hon, am na fyddai golygyddion neu gasglwyr y cyfnod am dramgwyddo'r canonau moesol Fictoraidd y disgwyliid iddynt eu cydnabod a'u parchu. Ac eto, ceir bod Llewellyn Evans, mab Cadrawd, flynyddoedd yn ddiweddarach, yn cyhoeddi dau amrywiad gwahanol ar yr un triban hwnnw a ystyrid yn 'not fit for printing'. Sylwer y tro hwn nad yr un nam corfforol sy'n derbyn sylw, ac mae'r fersiynau di-dîn o'r herwydd yn fiolegol barchusach:

Fi godais ar rhyw fora',
Fi nitho fargan ddech,
Fi brynas ych a gwddwg brith,
A'i lygad chwith yn eisa'.

Fi gwanas acha bora',
Fi nitho fargan ddech,
Fi brynas fochyn yn Brynwhith
A'i lycad with yn isha'.⁸

Yr awgrym, felly, yw fod yna is-ddosbarth o dribannau gwerinol eu naws nad ydynt i'w gweld mewn unrhyw gasgliadau cyhoeddus; bu gwaith golygyddol hynod gydwythodol yn sicrhau na fyddai unrhyw bennill o'r math a ystyrir yn 'unfit for a choir supper' yn dianc o afael y cymunedau gwerinol hynny a fyddai, yn wahanol i rai cylchoedd mwyr sidêd, yn hapus i arddel y math hwnnw o ieithwedd. Mae'n rhaid derbyn, felly, fod yna o leiaf ddau fath o gynulleidfa, sef y gwladwyr hynny a fyddai'n mwynhau adloniant gyda'r hwyr o fewn cylch o werinwyr a fyddai'n hapus i arddel ieithwedd a hiwmor cras eu llwyfannau answyddogol, a darllenwyr rhyw gyfnodolyn neu'i gilydd a fyddai'n atebol i brosesau golygyddol anwerinaidd eu pwyslais. Ar gyfer yr ail, byddai'n rhaid tacluso a saniteiddio unrhyw bennill amheus ei ieithwedd y gellid ei ystyried yn her i barchusrwydd yr oes. Wrth reswm, byddai proses o'r fath yn dileu asbri'r iaith lafar a fyddai yn amlach na pheidio yn rhan gynhenid o'r pennill gwreiddiol.

Gellid awgrymu, o ganlyniad, fod i hanes y triban ym Morgannwg gyd-destun amaethyddol, a'r cyd-destun hwnnw yn gysylltiedig â'r cyfnod pan oedd ychen dan yr iau ar feysydd breision y Fro. Yng neiriau Cadrawd:

These 'tribanau' have the real merit of presenting to our minds an unsophisticated picture of pastoral life in Glamorgan before the advent of the modern system of farming. They are redolent of the soil from whence they sprang, and have in them the very flavour of the life and manners of the period they belong to.⁹

O ganlyniad, naturiol yw canfod amrywiaeth o benillion sy'n adlewyrchu natur y byd amaethyddol, balchder amlwg yn y gwaith o aredig, a pharch hollol naturiol at gymwynasgarwch yr ych, anifail a ystyrir yn rhan o'r cylch teuluol ac un y tuedd i'w gyfarch wrth ei enw:

Mae geni chwech o ych'in
Yn well na chant o fechgyn;
Os caf gadw rhai'n yn fyw,
Mi reda' rhiw Penderyn.¹⁰

Mae sôn drwy'r Fro a'r Blaena',
Am ychin mawr y Sela,
Y nhw o Fargam i Golhuw,
O lawer yw y gora.¹¹

Afraid ychwanegu bod y tribannau hyn yn cynnig cyfres o ddarluniau difyr a dadlennol sy'n cyflwyno'r darlennydd i gyfnod a phatrwm byw hollol ddieithr i un y gynulleidfa gyfoes, ac i athroniaeth gymunedol a heriwyd yn y pen draw gan ddatblygiadau'r oes ddiwydiannol. Yn gyffredin i nifer o gronclwyr eraill, ceir gan Cadrawd ymgaïs i osod yr arfer o aredig gydag ychen mewn cyd-destun hanesyddol. Myn yntau fod yr arfer wedi dechrau diflannu tua'r flwyddyn 1830 ond bod cyfnod yr ych wedi parhau mewn

rhai mannau am flynyddoedd lawer wedi hynny:

When the last yoke was unfastened cannot be determined to a year, but it would not be much later than 1845. The custom had been slowly dying out ever since 1830.¹²

Ac yntau'n ysgrifennu yn 1883, mae'n rhaid derbyn erbyn hynny fod hen draddodiadau aredig a hen ganeuon y dalaith 'and all the memories of the centuries', wedi hen ddiflannu ar wahân i atgofion 'the few gray headed men who were the plough swains of the palmy days of ox driving'. Yr awgrym yn gyffredinol yw fod tridegau a phedwardegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi bod yn gyfnod o newidiadau sylfaenol yn hanes y gymuned amaethyddol wrth i agweddau ar y chwyldro diwydiannol ddechrau effeithio ar batrwm bywyd y gwerinwr. Denwyd nifer gan gyflogau uwch y Blaenau diwydiannol, ac ar yr un pryd roedd proses o fecaneiddio byd amaeth wedi golygu nad oedd angen cynifer o weithwyr bellach ar ffermydd y Fro. Cafodd hyn oll, wrth reswm, ddylanwad amlwg ar raglen dymhorol o weithgareddau gwerinol. Dyma fyrdrwn sylwadau John Howells, cyfaill i Cadrawd a chyd-hynafiaethydd, mewn cyfraniad i'r *Red Dragon* dan y teitl 'The Glamorgan Revel (Gwyl a Gwledd Mabsant)':

If the nineteenth century has become a marvellous period for the development of commerce, of manufactures, and of science, it has – as a set-off – been most destructive to many an old custom, to old habits of rural life, to many a harmless and fanciful superstition and belief. ... We have become so mercenary that even our holidays must be endorsed by the bank. ... Thus have I feebly tried to describe the Glamorgan Revel or Mabsant as it remains in my memory. It is now quite dead – dead as that dearest of all things, a door nail, and is quite past resuscitating or reforming.¹³

Wrth olrhain y cyfryw newidiadau, digon arwyddocaol yw rhagair Thomas Hardy i argraffiad 1896 o'i nofel *Under the Greenwood Tree* lle dywed fod yr hyn a gynigir ganddo yn 'fairly true picture, at first hand, of the personages, ways, and customs which were common among such orchestral bodies in the villages of fifty years ago'.¹⁴ Yn y rhagair i argraffiad 1912 o'r un nofel, dywed ymhellach fod yr hyn a draethir ganddo yn cynnig 'a fairly true record of a vanishing life'. Mewn cyflwyniad golygyddol sy'n ceisio gosod hyn oll mewn cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol, mae Tim Dolin yn dangos bod Hardy, a aned yn 1840, wedi dibynnu ar dystiolaeth ei deulu ac ar gof gwlad wrth ail-greu nodweddion cymdeithas a oedd i raddau helaeth iawn wedi peidio â bod erbyn cyfnod cyhoeddi'r nofel: fe'i hargraffwyd gyntaf oll yn 1872. Meddai Dolin:

Already Hardy is focusing on the precise moment of a rural English community's death as social reality and rebirth as representation, the moment when the old choir dies as social fact and is reborn into a timeless rustic yesterday, where lives are governed by the cycle of the seasons, Christian rituals and the agricultural

calendar, and where men and women are born into parishes, court each other in local country dances, give birth to children, and are buried in the churchyard.¹⁵

Ac eto yn y nofel arbennig hon, ni welir Hardy yn ceisio darlunio'r gwrthdaro amlwg rhwng 'pastoral modes' y byd amaethyddol a realaeth cras y byd diwydiannol a fu'n gyfrwng i fygwth rhaglen o weithgareddau a gysylltid â phatrwm bywyd ei gyndeidiau ers cyn cof, 'a rural England blighted by social change'. Hynny yw, roedd cronicl Hardy o'i Wessex ef yn adlewyrchu i'r dim y math o newidiadau y bu Cadrawd a John Howells yn ymdrin â hwy yng nghyd-destun Morgannwg werinol y cyfnod Ioloaidd.

Roedd trydydd aelod yn perthyn i gylch Cadrawd, sef David Jones a drigai yn Wallington ger Croydon yn ne Llundain ond a oedd yn enedigol o'r Fro. Pan drefnwyd cyfarfod arbennig yn y Bont-faen gan aelodau'r Cambrian Archaeological Society yn 1888, roedd cyfraniad David Jones yn un amlwg a gwerthfawr am iddo arddangos 'a very valuable series of drawings and maps in the ante-room of the Town Hall, illustrating the antiquities of Glamorganshire'.¹⁶ Yn ychwanegol at y cyfraniad hwnnw, bu'n gyfrifol am arddangos enghraifft o'r pen ceffyl a elwid yn y parthau hynny yn 'Mari Lwyd', ac am baratoi adroddiad hynod gynhwysfawr ar yr hen arfer. Yn ychwanegol at y dystiolaeth werthfawr a gofnodwyd, ceir neges sy'n nodweddiadol o'r cyfnod:

Many old observances which this century had inherited from a long line of predecessors have now ceased to be found even as 'survivals'; if met with at all, I apprehend it would be only as 'revivals', produced as something strange and rare for the amusement of the curious. Thus it has come to pass that the special local observances and rural pageantry which in Glamorganshire, on and about Twelfth Night, wound up the festivities of Christmastide, are no longer to be met with as part of the life of the people. 'Canu Gwassaila' and the going about with a 'Mari Lwyd' – customs common enough in the forties and fifties of the century – must now, I suspect, be classed with the things of the past.¹⁷

Drwy sôn am 'revivals' yma, mae David Jones yn adlewyrchu byrdwn sylwadau Hardy wrth iddo yntau gyfeirio at farwolaeth gwahanol gymunedau traddodiadol yn eu hanfod ond iddynt ennill rhyw fodolaeth newydd naill ai'n llenyddol, 'rebirth as representation', neu wrth i'r gwahanol draddodiadau gael eu harddel o'r newydd fel 'revivals'. Yn achos Hardy, dyna'r gymwynas a gyflawnir gan unrhyw stori neu nofel, sef bod modd i lenyddiaeth greadigol ymhen blynyddoedd anfarwoli rhyw achlysur neu gyfnod, y côr yn benodol yn y nofel *Under the Greenwood Tree* yn peidio â bod, ond yn ennill bodolaeth newydd mewn nofel sy'n creu 'a timeless rustic yesterday'.

Yn ystod yr 1880au cofnodwyd cannoedd o dribannau a oedd yn adlewyrchu naws cyfnod a oedd wedi hen ddiplannu. 'Cam e adaw heb gof', mae'n amlwg, oedd y cymhelliad llywodraethol, a cheir canran iach o benillion sy'n dathlu perthynas yr amaethwr a'r ych ar adeg pan fyddai'r gymuned gyfan yn dibynnu ar gydweithrediad

parod dyn ac anifail ‘cyn dycco’r ddaear fyth ei ffrwyth’. Gwelir, o ganlyniad, mai meysydd agored y Fro oedd sylfaen economi’r gwladwr, cynefin a oedd hefyd yn llwyfan awyr agored i gymaint o ganu beunyddiol ar ran y cathreiwyr wrth aredig. Naturiol, felly, yn y lle cyntaf oedd canfod y pwyslais tribannol ar y gwledig a’r gwerinol. Yn y man, gorfu i nifer o drigolion y Fro symud i’r Blaenau diwydiannol fel bod cynnwys y tribannau diweddarach yn adlewyrchu dull newydd o ennill bywoliaeth, a cheffndir cymunedol hollol newydd.

Ar wahân i’r cystylltiadau rhanbarthol hollol amlwg â hanes astudiaethau gwerin, gellir hefyd droi at gyfraniad penodol yr Eisteddfod Genedlaethol i’r maes arbennig hwn. Yn absenoldeb unrhyw sefydliadau cenedlaethol am gynifer o flynyddoedd, bu’r Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrifol am hybu pob math o weithgareddau diwylliannol, yn enwedig cyn gweld sefydlu gwahanol golegau Prifysgol Cymru. ‘Y ddelwedd o’r Brifwyl y ceisid ei meithrin yn anad yr un ddelwedd arall,’ meddai Alan Llwyd, ‘oedd y ddelwedd ohoni fel ‘Prifysgol y Werin’’.¹⁸ Yn ddiamau, roedd i’r Eisteddfod Genedlaethol arwyddocâd tra arbennig yn hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hithau’n ffocws i gynifer o weithgareddau diwylliannol ac i farddoniaeth yn enwedig. Ac eto, camgymeriad mawr fyddai cyfeirio at gyfraniad yr Eisteddfod fel pe bai’n sefydliad a lwyddodd ym mhob cyd-destun i hybu’r diwylliant brodorol a’r iaith Gymraeg yn y modd mwyaf effeithiol. ‘Er mai’r Eisteddfod,’ meddai Alan Llwyd ymhellach, ‘oedd prif sefydliad diwylliannol y Cymry, sefydliad anfodddhaol ydoedd yn ei hanfod, a sefydliad cecrus o groestynnu parhaol yn aml.’¹⁹ Ychwanegir mai barn y werin amdani oedd ‘mai sefydliad y mawrion ydoedd, ac wedi sefydlu colegau Prifysgol Cymru’ fod y Brifwyl yn ddim namyn ‘atodiad i’r Brifysgol’. Go brin y byddai hoelion wyth yr Eisteddfod yn hapus gyda’r fath ddehogliad. Wedi sefydlu Prifysgol Cymru, yn lle cydweithio â’i gilydd, gwelwyd cryn elyniaeth yn datblygu rhwng y sefydliad hwnnw a ‘Phrifysgol y Werin’. Ac eto, rai blynyddoedd cyn i’r Brifysgol fedru creu’r amodau a fyddai’n caniatáu gwaith ymchwil ar amrywiaeth o bynciau diwylliannol a llenyddol, gwelwyd ymgais ar ran swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol i hybu achos astudiaethau gwerin drwy gynnwys cystadlaethau perthnasol yn eu rhaglen. Yn 1885, er enghraifft, cynigiwyd gwobr am gasgliad o lën gwerin Morgannwg a llwyddwyd i ddenu’r Athro John Rhŷs, Athro Celteg cyntaf Prifysgol Rhydychen, yn feirniad. Mae’r neges a gyflwynwyd yn ei feirniadaeth yn amserol bwysig:

Lastly, I would take this opportunity of appealing to the newspapers of South Wales to encourage the collecting of Welsh Folklore before it is altogether too late. ... A county like Glamorgan ought to have a society to organise this and other kinds of antiquarian research; but in the absence of one, I feel sure that the editors of local newspapers would willingly give some of the valuable space too often devoted to horrible murders and other atrocities, to interesting bits of Folklore and antiquity.²⁰

Affraid dweud y byddai derbyn cefnogaeth ysgolhaig mor amlwg â'r Athro yng nghydestun yr Eisteddfod, yn ysbrydoliaeth i lawer a oedd yn ymddiddori ym maes astudiaethau gwerin. Dylid nodi, hefyd, fod rhai o'r papurau lleol eisoes wedi croesawu'r math o gyfraniadau y soniodd yr Athro Rhys amdanynt a pharhaodd y gefnogaeth i mewn i'r ugeinfed ganrif.

Mae yna agweddau eraill i'w hystyried a thystiolaeth sy'n awgrymu nad oedd cyfraniad yr Eisteddfod mor eglur gefnogol i'r iaith a'i diwylliant ar bob achlysur. Yn un o lythyrau David Jones (Wallington), er enghraifft, ceir syniad o'r modd y byddai rhai o Gymry'r cyfnod yn amheus iawn o natur a phwyslais y Brifwyl. Ymddengys fod Cadrawd yn yr achos hwn, wedi'i holi ynglŷn â'r gystadleuaeth yn Aberdâr ac wedi gyrru'r manylion ato. Gwelir na ddenwyd ei gyd-hynafiaethydd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a enillwyd yn y pen draw gan Cadrawd ei hun:

The newspaper slip relating to the Aberdare Eisteddfod of 1885 I return. ... I do not care about 'National Eisteddfodau'. Such a thing, is, to my thinking, a monstrosity: especially on the lines upon wh. it is worked, and does far more harm than good to the literature of Wales. ... The Eisteddfod really is the Institution of a people in a primitive state of existence. It is a thing wh. cd. only have taken its rise in a land where there were no cities: no great centres of learning: and the mark of its origin is still upon its present: it is still calculated only to give such amusement and instruction as wd. satisfy the people of a village.²¹

Er gwaethaf ymateb chwyrn ei gyfaill, penderfynodd Cadrawd gystadlu ac mae'r casgliad a wobrwwyd ac a gyhoeddwyd yn nhrefnion Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr yn hynod werthfawr, ac yn cynnwys cyfres sylweddol o'r tribannau a gasglwyd gan Cadrawd ac a gyhoeddwyd mewn gwahanol gylchgronau o 1880 ymlaen. Gellir dadlau, felly, hyd yn oed os oedd yr Eisteddfod ar y pryd yn sefydliad anfodddhaol, iddi hybu achos astudiaethau gwerin drwy sbarduno gwahanol gystadlewyr i gasglu a phrosesu amrywiaeth o ddeunydd, yn benillion a thraddodiadau, a oedd o hyd ar lafar gwlad ar gof a chadw gan drigolion hynaf y gwahanol gymunedau. Yn dilyn esiampyl Aberdâr yn 1885, gwelwyd cystadlaethau tebyg dros gyfnod hir, o Bontypridd yn 1893 i Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr yn 1948 pan ofynnwyd am gasgliad o dribannau oddi ar lafar gwlad, ac Eisteddfod Dolgellau (1949) pan baratowyd traethawd ar 'Hanes Plwyf Resolfen', er enghraifft, gan D. D. Herbert. Hynny yw, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod ar hyd y blynyddoedd yn gyfrwng i feithrin diddordeb yn y maes arbennig hwn ac yn gyfrwng i ddiogelu cymaint o ddeunydd a fyddai, fel arall, wedi mynd ar ddifancoll.

Ar yr un pryd, nid oedd cwynion David Jones (Wallington) yn erbyn y Brifwyl yn unigryw o bell ffordd. Cafwyd beirniadaeth gyson ei bod yn ŵyl hynod Seisnig ei naws a'i bod yn croesawu swyddogion ar sail llwyddiant masnachol yn hytrach nag ar sail

unrhyw ymrwymiad i'r iaith a'i diwylliant. Ar wahân i'r wedd Seisnig a fyddai'n ffynhonnell cryn feirniadaeth, ceir tystiolaeth, hefyd, fod diffyg trefn yn nodweddu nifer o weithgareddau'r Brifwyl. Bu'r flwyddyn 1894, er enghraifft, yn un hynod ddiddorol a chythryblus yn hanes yr Eisteddfod pan fu raid ethol Archdderwydd newydd i olynu Clwydfardd. Galwyd cyfarfod brys yn Amwythig a hynny o dan amodau a oedd yn golygu na allai'r mwyafrif o'r swyddogion fynychu'r pwyllgor. Penodwyd Hwfa Môn gan garfan ddethol a oedd, ar wahân i un aelod, yn hanfod o'r gogledd. Afraid dweud bod yr ymateb yn llai na brwdfrydig a bu colofnau'r *Western Mail* yn fwy na pharod i adlewyrchu'r anfodlonrwydd deheuol. Meddai un golygydd:

The action taken at Shrewsbury, however, sets at naught every principle of fairness, and hands the Gorsedd completely over to as small a clique as ever tried to pull the national wires.²²

Un o gefnogwyr ac amddiffynwyr selocaf yr Orsedd yn y de oedd Morien (Owen Morgan ?1836–1921), newyddiadurwr a oedd yn gweithio i'r *Western Mail*, ac un yr ystyrir ei fod yn bur eithafol ei ddaliadau derwyddol. Roedd y *Western Mail*, am resymau amlwg, yn llawn cyfraniadau dadleugar a lliwgar, a than adran a oedd yn dwyn y teitl 'Why Morien is impossible' ceir awgrym ar gyfer dull llawer mwy diddorol o ddewis Archdderwydd:



Llun o Iolo Morganwg: Elijah Waring,
*Recollections and Anecdotes of Edward
Williams* (London, 1850)

In old times the Archdruid was chosen something after this fashion. The candidates were placed in coracles – one, of course in each coracle – and the coracles were left to drift out into mid-ocean. A little bread and water was allowed to each Druid but no oars. If one of them returned to this country – which was very unlikely – he was proclaimed Archdruid; if two or more, then the first to be thrown up by the sea. Would it not be possible to revive this excellent method by special Act of Parliament? Wales would enjoy thereby at least one ineffable blessing; she would see the last of many of her sons whom she could so well spare.

Bu'n gyfnod cyffrous yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn brawf o'r diffyg trefn a nodweddaï'r sefydliad ar y pryd. Roedd Morien, wrth gwrs, mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar gyfle i gyfrannu i'r papur a'i cyflogai. Fel Hwntw cydwybodol, mynnai mai ym Morgannwg yn unig y gellid dod o hyd i'r Orsedd ddilys yn hytrach na'r 'imitation Gorsedd – not the real one – over which imitation poor 'Clwydfardd' presided during so many years'. Gorsedd Iolo Morganwg a Myfyr Morganwg yw'r wir Orsedd ac yno 'in the circle of the latter are prepared untarnished the jewels, the regalia, of Arthur and the Round Table'.

Ac eto, er gwaethaf holl wendidau'r Brifwyl, yr ymgecru, y diffyg trefn a'r elfen Seisnig, llwyddwyd i gydnabod astudiaethau gwerin ac i sicrhau cefnogaeth i'r maes mewn modd hollol ymarferol. Flwyddyn yn ddiweddarach yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1895 y cadarnhawyd penderfyniad y pwyllgor dethol hwnnw i ethol Hwfa Môn yn Archdderwydd, yn yr un eisteddfod ag y gwobrwywyd D. G. Williams am gasgliad o lôn gwerin Caerfyrddin. Yn 1898, bu William Davies (Tal-y-bont) yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog a ofynnai am gasgliad o lôn gwerin Meirion. Dilynwyd y patrwm hwn wedi troad y ganrif ac yn Eisteddfod Abertawe yn 1907, er enghraifft, cafwyd dwy gystadleuaeth y naill yn gofyn am gasgliad o lôn gwerin Cwm Tawe, a'r llall am ddeunydd yn gysylltiedig â Dyffryn Nedd.

Wedi i'r holl ddadleuon mewnlol ynglŷn â phenodiad Hwfa Môn dawelu, wele ymosodiad newydd ar holl weithgareddau'r Orsedd. Yn 1896, cafwyd ymosodiad John Morris-Jones ar hynafiaeth yr Orsedd mewn cyfres o erthyglau i'r cylchgrawn *Cymru* a fu'n gyfrwng i greu cyfnod pellach o ymgecru digon cas a di-chwaeth. Y tro hwn gwelid gorseddogion amlycaf y dydd yn herio safbwynt gwŷr y Brifysgol. Parhaodd y gwrthdaro am flynyddoedd lawer a chafwyd ail gyfres o sgarmesodd pan ailgydiodd John Morris-Jones yn y pwnc pan lansiwyd cylchgrawn y Brifysgol, *Y Beirniad*, yn 1911. Penderfynodd dyn o'r enw T. Marchant Williams gynrychioli safbwynt yr Eisteddfod a bu'n defnyddio colofnau *The Nationalist*, a olygid ganddo, i wrthymosod yn erbyn 'ceiliogod y colegau':

Are the Gorsedd stones to be dismantled, is the Archdruid to commit the happy despatch, and must the control of the Eisteddfod be handed over to a set of

academical cranks? Never. The Welsh people love their Eisteddfod too well to favour any such enterprise. Therefore, Messieures les professeurs, I think you had better stick to your classrooms. There is not a man among you capable of running a penny gaff, let alone a National Eisteddfod.²³

Mae'r holl hanes yn un hynod ddifyr ar un olwg, er bod yn rhaid gresynu na allai'r ddwy brifysgol, y werinol a'r academiaidd, fod wedi cydweithredu'n fwy effeithiol ar adeg o ddadeni yn hanes diwylliannol a llenyddol y genedl. Yr hyn sy'n berthnasol yma yw fod yr Eisteddfod Genedlaethol, er gwaethaf pob gwendid a phob chwa o ymgecu, wedi llwyddo, drwy gyfrwng y gwahanol gystadlaethau, i ddenu cyfraniadau hynod bwysig gan linach o haneswyr lleol a hynafiaethwyr diwyd. Yn achos Morgannwg, i'r garfan honno y perthyn pobl fel Cadrawd (Llangynwyd), Lewis Davies (Cymer Afan), D. Rhys Phillips (Castell-nedd), a D. D. Herbert (Resolfen).

O gyfnod cynnar iawn, roedd i'r gofadail lenyddol arwyddocâd arbennig, gwaith y beirdd swyddogol hynny a fyddai'n cynnal morâl y llwyth drwy ganmol haelioni a gwrhydri. Mewn oes lawer mwy hamddenol ei naws, gellid honni bod tribanwyr Bro Morgannwg wedi cyflawni'r un math o gymwynas drwy greu corff o benillion a fu'n gyfrwng i ddiogelu'r mwynder taleithiol hwnnw a oedd mor nodweddiadol o'r cyfnod cynddiwydiannol yn y rhan arbennig honno o Gymru. Cawn ganddynt ddarlun o gymdeithas freiniol, o bobl lawen yn mwynhau bywyd ac yn dathlu gwyliau'r flwyddyn drwy gynnal cyfres o hen arferion traddodiadol. Yn 1837, bu Maria Jane Williams yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn un o Eisteddfodau'r Fenni am gasgliad o ganeuon gwerin traddodiadol, casgliad a fu'n sail i'r gyfrol gyhoeddedig *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844). O droi at yr ohebiaeth rhwng Arglwyddes Llanofar a Taliesin Williams, mab Iolo Morganwg, gellir dangos yn eglur pa mor benderfynol oedd yr Arglwyddes i sicrhau y byddai'r geiriau traddodiadol Gymraeg yn cael eu cynnwys ynghyd â'r alawon. O ganlyniad, cyhoeddwyd cyfrol o wir werth a oedd yn cynnwys caneuon a ddaeth yn bur amlwg yn hanes cerddoriaeth werin yng Nghymru. Ac eto, siomedig yw gorfod cofnodi mai ychydig o sylw a gâi penillion llafar gwlad erbyn canol y ganrif, pan fyddai cyngherddau Fictoraidd eu cymeriad yn sicrhau dewis 'parchus' o ddarnau cerddorol ar gyfer cynulleidfaoedd wedi'u cyflyru i ymbellhau oddi wrth y traddodiadol werinol. Byddai'n rhaid troi, felly, at gyfraniad y baledwr a fyddai'n ennill ei damaid mewn ffeiriau a marchnadoedd, yn lledaenu newyddion am ambell lofruddiaeth neu ddamwain, ond ar yr un pryd yn perfformio gwahanol ganeuon gwerin megis 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' a'r 'Ferch o'r Sgêr', ac yn eu poblogeiddio drwy ychwanegu manylion y cyd-destun storïol.

Gyda'r blynyddoedd, daeth tro ar fydd. Yn ystod yr 1880au, bu ymdrech o'r newydd i ailddarganfod a dathlu patrwm byw a oedd bellach yn peidio â bod. Heb ymgais i gofnodi profiadau gwerthfawr lleiafrif bychan o lygad-dystion a oedd o hyd yn fyw, meddid, byddai pennod bwysig yn hanes y dalaith wedi'i hesgeuluso a'i cholli. Dyna oedd y sbardun seicolegol a fu'n gyfrifol am gymaint o'r casglu a'r cofnodi a wnaed

gan gnewyllyn o haneswyr a hynafiaethwyr diwyd a gyfrannodd yn helaeth i gylchgronau'r degawd. Yr eironi, wrth gwrs, oedd fod llên gwerin wedi ennill elfen o gydnabyddiaeth a pharchusrwydd mewn cyfnod pan oedd llwyfannau gwerinol wedi hen ddiplannu wrth i ddylanwadau'r Chwyldro Diwydiannol effeithio'n fawr ar batrwm bywyd trigolion Morgannwg gan beri i nifer o hen drigolion yr ardaloedd amaethyddol symud tua'r Blaenau. Mae'n wir i rai traddodiadau oroesi a bod partïon y Fari Lwyd, er enghraifft, wedi parhau i fynd ar eu taith flynyddol rhwng y Nadolig a'r Calan am beth amser eto mewn ambell gwmwd ym Morgannwg er bod oes aur yr arfer wedi dirwyn i ben. Yn y cyfnod hwnnw, fel y ceisiwyd dangos, y dechreuodd yr Eisteddfod Genedlaethol gynnig lle yn ei rhaglenni i gystadlaethau penodol yn gofyn am gasgliadau o lôn gwerin. Diogelwyd, o ganlyniad, ddeunydd hynod werthfawr yn ymwneud â hanes hen draddodiadau mewn nifer o ardaloedd. Drwy gyfrwng y casgliadau eisteddfodol hynny, ynghyd â chyfresi o orthyglau mewn gwahanol gylchgronau a phapurau lleol, llwyddwyd i ail-greu naws a chymeriad y cymunedau amaethyddol ar gyfer cynulleidfya gyfoes, proses o 'rebirth as representation' yng ngeiriau Hardy a'r gwerinwyr eu hunain, drwy gyfrwng y stôr o ganeuon a thraddodiadau a adawyd, yn llwyddo i berfformio ar ein cyfer 'the drama of their passing'. O ganlyniad gellir creu gorffennol gwledig a diamser, 'heddwch huawdl byd yr ych a'r menni', a fu'n gefndir i waith y cathreiwyr ac a ddethlir gyda chryn afiaith mewn cynifer o dribannau traddodiadol.

Erbyn heddiw, yr her yw diogelu a rhannu'r holl dystiolaeth sy'n caniatáu i'r genhedlaeth newydd ddilyn hen lwybrau gwerinol y dalaith a sicrhau, hefyd, llwyfannau newydd ar gyfer yr hen ganeuon traddodiadol. Mae gan D. Roy Saer ei ddull personol ffraeth o fynegi'r syniad hwnnw, sef nad yw arddel yr hen ganeuon yn golygu efelychu natur y perfformiad ym mhob dim: ni fyddai ef yn dewis 'argymell y dylai canwr neu gantores ddod i'r llwyfan â phâr o gloes lleidiog, heb sôn am bâr o ychen bannog'.²⁴ Yr her yw 'ceisio adnabod a datblygu'r mannau cyfarfod rhwng traddodiad canu gwerin ddoe a heddiw – ac yfory'. Yn sgîl amrywiaeth o newidiadau cymdeithasol a thechnolegol, daeth cymuned y cathreiwyr a'r llwyfannau gwledig i ben. Ac eto, mae'n rhaid cydnabod a manteisio, bellach, ar y llwyfannau newydd ac amrywiol hynny, sydd fel yr Eisteddfod Genedlaethol hon eleni, yn gyfrwng i hybu a diogelu diwylliant gwerin y genedl.

NODIADAU

¹ Gw. G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956), t. 64.

² *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, i, 26.

³ T. C. Evans (Cadrawd), 'The Folklore of Glamorgan', *Transactions of the National Eisteddfod of Wales Aberdare 1885* (Caerdydd, 1887), t. 201.

⁴ Colofn Cadrawd yn y *Central Glamorgan Gazette*, 4 Awst 1882.

⁵ LIGC Llsg. 1172, 54 ('The Gwentian Dialect'); cf. *Central Glamorgan Gazette*, 16 Rhagfyr 1881; Tegwyn Jones (gol.), *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), rhif 213.

- ⁶ James Reeves, *The Idiom of the People* (London, 1958), t. 8.
- ⁷ Llyfrgell y Ddinas, Caerdydd Llsgr. 2.330 (Casgliad T. C. Evans (Cadrawd)).
- ⁸ Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan), Llsgr. 1409/1, 76 (Casgliad Llywellyn Evans).
- ⁹ T. C. Evans (Cadrawd), op. cit. 186.
- ¹⁰ Ibid. t. 199. Mae'r triban fel y'i gwelir yn Caerdydd Llsgr. 4.313, 54, yn cadw'r ffurfiau tafodieithol 'whech', 'ciaf giatw' a 'rheta'.
- ¹¹ Caerdydd Llsgr. 2.330 (Cadrawd 63). Mae yna 12 cyfrol yn dwyn yr un rhif. Digwydd y dyfyniad yng nghyfrol 4, 30. Teitl y gyfres benillion yw 'Ychin mawr y Sela'. Cofiaf i'r Athro T. J. Morgan ddweud wrthyf ei fod yn gyfarwydd â'r gair 'Go-liw', fel petai'n golygu 'lle pell iawn' neu 'ben draw'r byd'. Mae 'Col-huw (Colhugh)', hefyd, yn enw ar le yng nghyffiniau Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg.
- ¹² T. C. Evans (Cadrawd), 'Ploughing with Oxen in Glamorgan', *Red Dragon*, iii (January–June 1883), t. 139.
- ¹³ John Howells, 'The Glamorgan Revel (Gwyl a Gwledd Mabsant)', *Red Dragon*, v (January–June 1884), tt. 130, 135–6.
- ¹⁴ Dyfynnir yn rhagair Tim Dolin i Thomas Hardy, *Under the Greenwood Tree (A Rural Painting of the Dutch School)* (London 1998), t. xxiv.
- ¹⁵ Ibid. t. xxx.
- ¹⁶ David Jones (Wallington), 'The Mari Lwyd: a Twelfth Night Custom', *Archaeologia Cambrensis*, v (1888), t. 389.
- ¹⁷ Loc. cit.
- ¹⁸ Alan Llwyd, *Prifysgol y Werin: Hanes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1900–1918* (Llandybie, 2008), t. 18.
- ¹⁹ Ibid. t. 19.
- ²⁰ *Transactions of the National Eisteddfod of Wales Aberdare 1885* (Caerdydd, 1887), tt. 184–5. Gw. beirniadaeth yr Athro John Rhŷs ar y gystadleuaeth yn gofyn am gasgliad o lôn gwerin Morgannwg.
- ²¹ Llyfrgell y Ddinas, Caerdydd Llsgr. 2.364, ii, rhif 52 (Casgliad T. C. Evans (Cadrawd)).
- ²² Gw. *Western Mail*, 17 Tachwedd 1894. Gellir olrhain yr hanes drwy gyfrwng cyfres o erthyglau hynod liwgar a dadleugar a ymddangosodd yn y *Western Mail* am ryw wythnos neu ragor yn dilyn y cyfarfod brys yn Amwythig; gw. *Western Mail* 17–23 Tachwedd.
- ²³ *The Nationalist*, iv, no. 36, July 1911, tt. 38–9.
- ²⁴ D. Roy Saer, 'Canu at Iws': Darlith Goffa Amy Parry-Williams 1992 (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1992), t. 24.

CÂN ARALL O GASGLIAD TAL GRIFFITH

Buddug Lloyd Roberts

Yn *Canu Gwerin* 31 (2008), tt. 41–54, cyflwynwyd saith o ganeuon a godwyd oddi ar lafar gan Tal Griffith, a lle cafwyd nodyn ganddo yn eu cylch fe'i cynhwyswyd fel ag y'i cofnodwyd ganddo. Dyma gân arall o'r un casgliad, ynghyd â'r nodyn a cynhwyswyd gan Tal Griffith yn ei chylch. Golygwyd y sillafu a'r atalnodi.

Trafaeliais y byd

Lah: F	Dau guriad i'r mesur
Doh: Ab	

1. Ffarwél fo bariau Lerpwl,
Ffarwél fo bariau Caer,
Ffarwél fo i Ynys Seiriol,
A'r Sianel fawr o'i blaen.

Byrdwn

Trafaeliais y byd ei hyd a'i led,
A thrwodd a thros y môr:
Bydd glaswellt ar fy llwybrau i
Cyn delwyf i Gymru'n ôl.

2. Ffarwél fo i dre Beaumaris
A dinas bach Moel-don;
Ffarwél i dre Caernarfon
A'i merched ifanc llon.
3. Ffarwél fo i Ynys Enlli
A hefyd Tudwal's Road;
Ffarwél i dre Pwllheli
Lle gwariais i lawer grôt.
4. Ffarwél fo i gastell Cricieth,
A hefyd Pentraeth Mawr;
Ffarwél i gastell Harlech,
Sydd bron â dod i lawr.
5. A Sarn a Morfa Nefyn,
Rhyd'clafdy a Phorthdinllaen;
Ffarwél pob lle rhwng glannau Llŷn
Nes canwn ni eto o'ch blaen.

Hen gân fôr gan longwyr Nefyn oedd yn boblogaidd iawn flynnyddoedd yn ôl. Y mae'r 4 pennill cyntaf [yn] y gwreiddiol ond un gwneud yw'r olaf i gau'r gerdd i fyny. Credaf fod amryw bennill arall –Tal Griffith.

[Am fersiwn arall o'r gân gweler 'Ffarwél i ddociâu Lerpwl' yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, iv (1951), tt. 62–3. Gweler hefyd 'Trafaeliais y Byd' yn *Canu'r Cymry*, gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans (1984), t. 42: yr un yw geiriau'r gytgan, ond mae'r alaw yn hollol wahanol. Yn ail gasgliad Lady Herbert Lewis, *Second Collection of Welsh Folk-Songs* (Wrexham & Cardiff, 1934), mae cân sy'n dwyn y teitl 'Ffarwel fo i chwi unwaith' a'r ail bennill yw:

Ffarwel i ddociâu Lerpwl,
Ffarwel i fryn a bro,
Ffarwel i Aberteifi
Lle haes i lawer tro.
Trafael u'r byd ei led a'i hyd
A nofio dros y môr,
Bydd glaswellt ar fy llwybrau i
Cyn delwyf i Gymru'n ôl.

(Diolch i Dr Rhidian Griffiths am y cyfeiriadau ychwanegol hyn – Gol.)]

Sarah Jacob, Sarah Hughes, a gweithwyr ffatri yn swydd Ayr: lle merched ym maledi Huw Roberts ‘Pererin Môn’¹

Rhiannon Ifans

Cyfansoddodd Huw Roberts ‘Pererin Môn’ dair baled am ferched – yn y cartref ac wrth eu gwaith. Y gyntaf o’r rheini oedd baled yn adrodd hanes Sarah Jacob (1857–69): ‘Y Ferch Ryfeddol, neu Hanes Sarah Jacob Llethr-Neuadd, yn agos i Bencader, swydd Gaerfyrddin, a anwyd y 17eg o Fai, 1857, ond nid ydyw wedi profi un math o fwyd, gwlyb na sych, oddiar y 10fed o Hydref, 1867, sef 17 mis’.² Adroddir hanes y ferch ddeg oed a gafodd ei tharo’n wael yn yr ysgol gynradd un diwrnod ym mis Chwefror 1867 a chael ei hanfon adref; cafodd amryw ffitiau, aeth yn anymwybodol, a pharhaodd yn y cyflwr hwnnw am fis crwn. Ni allai’r byd meddygol lleol gynnig ateb i’w chyflwr, ac er iddi wella a chryfhau rhywfaint ar y dechrau buan y sylweddolwyd dros yr wythnosau dilynol ei bod hi’n gwanhau, yn mynd yn esgyrnog, ac yn colli ei gwallt. Erbyn 10 Hydref yr oedd wedi rhoi’r gorau i fwyta ac yfed yn gyfan gwbl.

Daeth yr achos i glyw gwlad ac yn fater o ddiddordeb poblogaidd a meddygol. Erbyn haf 1868 ymddangosodd y stori mewn nifer o gyhoeddiadau Cymraeg, ac yn dilyn cyhoeddi llythyr gan ficer eglwys Llanfihangel-ar-arth yn *The Welshman* daeth yr achos i sylw’r wasg yn Lloegr. Yr oedd y cylchgrawn meddygol *The Lancet* yn arbennig o hallt ei farn am yr achos, ac yn amheus iawn o eirwiredd Sarah Jacob a’i rhieni. Ym mis Awst 1869 daeth Robert Fowler, meddyg profiadol o Lundain, i weld Sarah a chyhoeddodd ei sylwadau yn *The Times* ar 7 Medi. Dyfarnodd ei bod yn dioddef o ‘simulative hysteria’ a’i bod hi’n bwydo’i hun yn ystod y nos. Yr oedd yn sicr o’r farn y dylid ei hanfon i ysbyty a gorfodi bwyd arni.

Ailagorwyd y drafodaeth yn sgil ei ddyfarniad, a rhoddodd rhieni Sarah Jacob ganiatâd i nyrsys o Ysbyty Guy’s, Llundain, ddod i oruchwylio’r ferch ddydd a nos. Cyraeddasant Lethr-neuadd ar 9 Rhagfyr 1869 ac ymhen deg diwrnod, ar 17 Rhagfyr 1869, fe fu Sarah Jacob farw. Yn y cwést a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr datgelwyd bod olion bwyd yn ei stumog, a thystiodd y nyrsys fod staeniau ar y dillad gwely a allai gadarnhau ei bod yn bwyta peth bwyd. Serch hynny, dyfarnwyd ei bod wedi llwgu i farwolaeth.

Nid dyma’r achos cyntaf o’i fath yng Nghymru. Rhoddwyd cryn sylw i achos Gaenor Hughes (1745–80) o Fodelith, Llandderfel yn sir Feirionnydd. Lluniodd Elis Roberts ‘Elis y Cowper’ ddwy faled amdani, un yn 1777 a hithau wedi bod yn ymptydio am dair blynedd, a’r llall ychydig cyn ei marwolaeth yn 1780: ‘Gaynor Hughes, yr hon sydd er’s pum mlynedd a hanner; heb archwaeth un math o luniaeth ond ychydig o Ddŵr a Leci[r], a gronyn o Siwgr: nid yw’r cwbl mor llond Cwppan De; un waith y Dydd’.³ Menyw ymptydiol arall oedd Mary Thomas o Langelynnin ym Meirionnydd a fu farw yn 89 mlwydd oed ar ôl bod yn orweiddiog am dros 65 mlynedd.⁴ Enghraifft bellach o blentyn yn ymptydio oedd achos Ann Morgan, merch tua deuddeg mlwydd oed o’r

37/60

Y Ferch Ryfeddol, NEU HANES SARAH JACOB,

Llethe Neuadd,

YN AGOS I BENCADR, SIR GAERFYRDDIN,

A anwyd yr 17eg o Fai 1857, ond nid ydyw wedi profi
un math o ffurysd gwyb na'i sych, oddiar y 10fed o
Hydref, 1867, sef

Blwyddyn a thri Chwarter!!

GAN HUGH ROBERTS, (Porerin Môn.)

Holl Gymry De a Gogledd,
Yn fwyntid dewch yngbyd
Cewch hanes gwrthdrys hynod,
Mae'r geiriau yn wir i gyd,
Sef hanes Sarah Jacob,
O sir Gherfyddin fad,
Mae hon yn gwir fagori
A'r ferched tref a gwlad.

Mae'n gwybod yr ysgrythyr
O'n bod yn ddeuddeg oed,
Llenyddiaeth a barddoniaeth,
Ni fu ei bath erioed,
Mae hon yn wrthdrys sylw
Gan baw oddyhol ryw,
Trwy drefen ddoeth Rhagluniaeth
Fell gwellr heddyw'n fyw.

Borth yng Ngheredigion y daeth ei stori i olau dydd gyntaf yn nhudalennau'r *Faner*:

Dywedai ei mham wrthyf ... ei bod er's un-wythnos-ar-ddeg heb brofi tamaid o un math o luniaeth o gwbl, a'i bod er's wyth wythnos heb gymeryd dim gwlybwr o fewn ei genau ... Nid ydyw yn gallu siarad yr un gair, ac y mae rhywun yn gorfod dal llaw ar ei phen yn gysson pob munyd o'r dydd a'r nos er pan y mae yn glaf, onid ê, ysgydw a ei phen o'r naill ochr i'r llall nes y mae yn drueni ei gweld.⁵

Naw mlynedd oedd wedi mynd heibio ers achos Sarah Jacob, ac yr oedd Bwrdd Gwarcheidwaid Undeb Aberystwyth yn synhwyro twyll. Sylw un aelod oedd: 'Let us be sharper than the Hwntws of Carmarthen.' Diwedd y stori fu bygwth mam Gaenor Hughes, a oedd yn byw ar y plwyf, na chât'r taliadau hynny petai'n gwrthod i'w merch fynd i ysbyty i gael triniaeth. Cafwyd ei chaniatâd, a chanlyniad hapus.

Yn achos Sarah Jacob ymddengys ei bod yn bwysicach canfod am ba hyd y gallai fyw heb fwyd na diod nag ydoedd i roi terfyn ar ei hympryd, ac amlygir yn ei stori enghraifft o wrthdaro ffyrnig rhwng gwyddoniaeth a ffydd. I'r meddyg o Lundain yr oedd dilyn trefn feddygol, wyddonol yn hollbwysig; i rieni Sarah yr oedd 'y Doctor Mawr' yn gofalu amdani yn ardderchog, a gweithred ffydd oedd bwysicaf. Cofnododd Herbert Jones 'Myrddin Ddu' o Landysul yntau, yn dilyn ymweliad â Sarah Jacob yn ei chartref, ymateb tebyg: '[t]eimlwn wallt fy mhen yn sefyll yn syth, wrth neshau at y fan lle yr oedd gwrthddrych o dan ofal neillduol Rhagluniaeth yn bodoli.'⁶ Dyma sut y disgrifiodd y plentyn:

Er fy syndod yr oedd ganddi ruddiau rhosynaidd; ac o ran harddwch a glendid gallaswn ei chymharu i lili yn mysg drain. Yr oedd y dillad gwely o'r fath oraf, a'r fath lanaf, a'r fath harddaf. Nid oedd ond un fraich iddi y tu allan i'r dillad; ac yr oedd hono wedi ei gwisgo â gwyn, a rhyban glas wedi ei glymu am ei garddwrn; ac wrth gwrs yr oeddwn yn gallu sicrhau fy hun ei bod, o ran barn boliticaidd, yn *liberal* i'r pen.⁷

Cyhoeddodd Pererin Môn ei faled yn fuan wedi cyhoeddi erthygl Myrddin Ddu yn *Seren Cymru*. Nodir yn nheitl baled y Pererin fod Sarah Jacob wedi bod yn ymprydio ers 17 mis pan luniodd ei gân. O gyfrif ymlaen 17 mis gan ddechrau ym mis Hydref 1867 ceir mai ym mis Chwefror 1869 y canodd y Pererin ei faled – o fewn dyddiau i'r hanes ymddangos yn *Seren Cymru*. Tybed a ddarllenodd *Seren Cymru* ei hun, ai clywed yr hanes ar lafar a wnaeth?

Y naill ffordd neu'r llall, gwelodd Pererin Môn gyfle i elwa ar draul y stori ryfeddol hon. Cyhoeddodd argraffiad newydd o'r stori yn fisol gan newid y teitl o 17 mis i 18 mis, 19 mis, ugain mis, blwyddyn a thri chwarter, a dau fis ar hugain. Gwelir cyhoeddiad newydd felly ym misoedd Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin, a Gorffennaf. Y mae'n bosibl fod y gwerthiant yn gostwng a'r arian yn prinhaus wedi hynny gan mai'r faled olaf sydd ar glawr

a chadw yw'r un sy'n nodi yn ei theitl fod Sarah Jacob wedi bod heb fwyd am 22 mis – ym mis Gorffennaf 1869 fyddai hynny. Os nad aeth testunau ar goll, ymddengys fod Pererin Môn, rhwng mis Awst a mis Tachwedd, naill ai'n cadw'n dawel neu'n canu am faterion eraill.

Ym mis Rhagfyr fe luniodd Pererin Môn ail faled yn trafod yr achos hollol ryfeddol hwn yng nghefn gwlad Cymru. Canodd ar yr un mesur ag y canodd ei faled gyntaf – yn wir o'r ail bennill ymlaen y faled gyntaf yw hi ond bod tro yng nghynffon yr hanes. Y mae teitl y faled newydd yn wahanol: 'Bywyd a Marwolaeth yr eneth hynod Sarah Jacob' a lle bu dwsin o benillion y mae'r ail faled yn ddeg pennill o hyd: hepgorwyd penillion 7 a 9 a newidiwyd cynnwys y pennill cyntaf a'r olaf. Bellach cloir yr hanes drwy ryfeddu at ddyfalbarhad a hirhoedledd Sarah Jacob a hithau'n amddifad o bob maeth:

Ond Sarah fach o'r diwedd,
Fel pawb o'r ddynol ryw,
Adawai'r corff gwanychlyd
A'i henaidd aeth at Dduw;
Ond bydd y sôn amdani
Yn para tra fo'r byd,
A phawb fydd yn rhyfeddu
I'w bywyd bara cyd.⁸

Daw'r faled gyntaf i ben ar nodyn pur wahanol:

Ffarwel yn awr, gyfeillion,
Yn fawrion ac yn fân,
Rwyf wedi troi yr hanes
Yn gywir oll ar gân;
Ond nawr rwy'n rhoddi i chwi
Ddau bennill ola'r gwaith
A wnaed gan Sarah Jacob
Pan yn ei chystudd maith.

A dyma'r ddau bennill hynny, o dan y teitl 'Ar farwolaeth merch fechan':

Aeth geneth fechan adref,
Mae heddyw gydag Ef,
Yn awr yn canu'n beraidd
Ar delyn aur y nef;
Ac er mor annwyl ydoedd
Gan ei rhieni cun,
Anfonodd Crist amdani
Yn berlyn iddo'i hun.

Gadawodd fyd o ofid
A'i demtasiynau 'gyd,
Gadawodd holl helyntion
Trafferthus hyn o fyd;
Mae nawr o gylch yr orsedd
Yng nghwmni Iesu glân
A thelyn yn ei dwylaw
Yn chware'r nefol gân.

Eisoës canmolwyd doniau barddol Sarah Jacob gan Myrddin Ddu yn *Seren Cymru*:

Y mae [Sarah Jacob] wedi cyfansoddi amryw ddarnau barddonol a hymnau. Adroddodd bedwar neu bump wrthyf. Bwriedir, ar gais amryw, ac ar gais C. P. Pugh Pryse, Ysw., Bwlchbychan, i wneuthur crynodeb o'i holl gyfansoddiadau barddonol, yn llyfryn, a bydd yn cael ei werthu am tua cheiniog neu ddwy. Nid ydynt wedi ei hysgrifenu; y maent ar ei chof bob yr un. Ysgrifenisais dri o honynt ar ei chais, a dywedodd wrthyf am anfon un o honynt i'r SEREN wrth anfon ei hanes; a dyma fi yn gosod un o honynt yma er cywreinrwydd i'r darllenwyr, fod geneth deuddeg oed wedi cyfansoddi y fath linellau sylweddol.

Dyfynna Myrddin Ddu yr union ddau bennill ag a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan Pererin Môn ar derfyn ei faled, o dan deitl ychydig bach yn wahanol, sef 'Cyfansoddedig ar farwolaeth merch fechan'.

Ond y faled yn ei chrynswth. I ba raddau y mae baled Pererin Môn yn fydryddiad noeth o erthygl Myrddin Ddu yn *Seren Cymru*? Y mae'r faled yn agor â'r gwahoddiad arferol i dalu sylw, cadarnhad fod y stori'n wir, a stamp y baledwr fod hon yn stori werth ei chlywed a bod iddi elfen foesol dra phwysig gan fod yr eneth hon yn rhagori ar ferched dynion. Haera'r ail bennill fod Sarah Jacob yn gwybod yr Ysgrythurau cyn ei bod hi'n ddeuddeg oed, ei bod yn gyfarwydd â barddoniaeth a llenyddiaeth Cymru, ac mai:

Trwy dref[e]n ddoeth Rhagluniaeth
Fe'i gwelir heddiw'n fyw.

Edrydd penillion 3, 4 a 5 hanes Sarah fach yn clafychu, weithiau gan ddefnyddio'r un geiriau â Myrddin Ddu. Meddai'r gohebydd, 'Dechreuad ei chlefyd oedd, myned yn glaf adref o'r ysgol' ac ychwanega 'gan godi gwaed o'i *breast*'. Meddai'r Pererin:

Dechreuad ei hafiechyd
Oedd dyfod adre'n glaf
O'r ysgol un diwrnod
Tanbeidiol yn yr haf.

Dyma syndod o'r mwyaf gan mai ym mis Chwefror yr aethai Sarah Jacob yn sâl, ond buan y daw'r Pererin yn ôl at realiti pethau:

Hi gysgodd fis yn gyflawn,
Heb ddeffro dim un waith.

Mynnodd Myrddin Ddu rywbeth tebyg: 'Cysgodd wedi hyny am fis yn grwn, heb gymmeryd lluniaeth, na chymmaint a deffroi unwaith.' Ym mhennill 7 y mae'r Pererin yn amlygu nerth Duw yn nhroeon yr yrfa:

Rhyfeddod ydyw gweled
Yr eneth hon yn fyw,
Ond beth sy'n fwy rhyfeddod
Na dyfnion droion Duw?

Y mae Myrddin Ddu yn fanylach ar y mater:

Yn wir, onid yw hyn yn beth hynod, hynod iawn; ond a ydyw hyn yn fwy hynod na gweithredoed ereill o eiddo ein Duw? Yn fwy hynod na rhwygo'r Iorddonen,⁹ a hollti'r môr;¹⁰ porthi Elias ar lànau Cedron;¹¹ peru i'r ddaear lyncu Dathan, Corah, ac Abiram;¹² achub Daniel yn y ffau; y tri llanc yn yn [sic] y ffwrn,¹³ a pheru i'r Brenin¹⁴ bori gwellt am saith mlynedd?

Cyfeirir ym mhennill 8 y faled at bwyntiau a wneir gan Fyrddin Ddu:

Mae'i llais yn gryf ac eglur,
A'i gruddiau'n hynod hardd
Fel lili'n mysgr mieri,
Neu ros yn yr ardd;
A'i hoffter ydyw gweddi,
Neu ddarllen mewn rhyw fan,
Ond nis gall droi'r dalennau,
Mae'i breichiau bach ry wan.

Dyma eiriad Myrddin Ddu:

Er fy syndod, yr oedd ganddi ruddiau rhosynaidd; ac o ran harddwch a glendid, gallaswn ei chymharu i lili yn mysgr drain ... Pan aethym i'r ystafell, yr oedd yn darllen rhyw lyfr Hymnau; a chan ei bod yn rhy wan i wneyd cymmaint a throï un o'r dail, galwai ar ei mam i wneyd hyny. Yr oedd ei llais yn hollol gryf ac eglur.

Serch hynny, y mae nifer o bwyntiau graffig yn yr erthygl nad yw'r baledwr yn manteisio arnynt. Enghraifft wiw yw'r darn sy'n disgrifio braich wen Sarah Jacob yn gorwedd ar y gwely 'wedi ei gwisgo â gwyn, a rhyban glas wedi ei glymu am ei garddwrn', ac y mae ambell berl arall a adewir ar fin y ffordd. Nid yw trefn y dweud yn cyfateb yn y ddau gyhoeddiad ychwaith, ac efallai mai oddi ar lafar gwlad y cododd y baledwr y stori, a bod y darnau sy'n hynod debyg, weithiau air am air, hefyd wedi eu codi oddi ar lafar. Ond y mae'n deg dyfalu mai o ganlyniad i erthygl Myrddin Ddu y gwyddai'r Pererin am y stori, ac y mae dyddiad cyhoeddi'r faled yn tystio o blaid hynny. Lluniodd John Evans 'Gwawrfryn' o Aberaman, Aberdâr, faled 12 pennill ar yr un testun¹⁵ a thystia ef yn ddigon clir mai *Seren Cymru* oedd ffynhonnell ei stori ef.

Y mae'n bosibl fod Pererin Môn wedi mabwysiadu nid yn unig y stori ond hefyd wedd gadarnhaol safiad *Seren Cymru* ar y mater. Yr oedd nifer o bobl yn amheus iawn o eirwiredd Sarah Jacob ac yn amau gonestrwydd ei rhieni hefyd. Nid felly *Seren Cymru*. Y mae Pererin Môn yn mynd gam ymhellach na hyd yn oed Myrddin Ddu. Y mae gan y Pererin ddau bennill sy'n annog plant yr Ysgolion Sul, ac ieuencid Cymru yn gyffredinol, i ddysgu eu gwersi, i ddysgu'r Ysgrythur, i gofio eu Creawdwr, i drysori'r faled, ac i gofio Sarah Jacob sy'n destun siarad i bob unigolyn:

Mae hon yn gwir ragori
Ar ferched tref a gwlad.¹⁶

Yn 1873, yn fuan ar ôl marwolaeth Sarah Jacob, rhoddwyd enw ffurfiol i'r salwch *anorexia nervosa*, ac fe'i disgrifiwyd yn drwyadl gan ddau feddyg, sef gan y Sais Syr William Gull, a chan y Ffrancwr Ernest Laseque. Y mae tystiolaeth llenyddiaeth ganoloesol yn brawf fod y salwch yn mynd yn ôl ganrifodd. Yn yr Oesoedd Canol credid bod gwrthod bwyd yn arwydd o grefyddolder, a cheir enghreifftiau o santesau a merched asgetaidd yn ymatal yn wirfoddol oddi wrth fwydydd¹⁷ gan gysylltu hynny â'r arfer o ymprydio a oedd, yn ôl y ddysgeidiaeth eglwysig, yn gymorth i buro'r meddwl, i ymstwng yn edifeiriol am bechod, ac i ymbil am drugaredd.¹⁸ Law yn llaw ag anian gyfatebol ostyngedig, fe'i cyfrifid yn rhinwedd. Dagrau pethau yw nad oedd rheoleiddio gorfodol ar yr arfer o du'r awdurdodau eglwysig nac anghydfurfiol yng Nghymru. Er bod ei thad, Evan Jacob, yn ddiakon gyda'r Annibynwyr ym Mhencader, ac er bod cysylltiadau cryf rhwng y teulu hwn a'r Eglwys Wladol gan iddynt fedyddio mab yn eglwys y plwyf ym mis Awst 1868, ni welodd y naill sefydliad na'r llall yn dda i atal y ferch rhag llwgu ei hun i farwolaeth, gweithred sy'n gyfystyr â hunanladdiad. Ymddengys fod pethau'n wahanol dros y ffin yn Lloegr:

Whereas the medieval church at least initially approved of fasting as an appropriate devotional custom, English moralists and church leaders explicitly discouraged extreme abstinence for the very reason that it signaled a deviation from church-prescribed practice: individuals might choose to follow their own devotional preferences rather than those set forward by the institutional church.¹⁹

Yr oedd canu am ferched ymprydol, neu ‘ferched gwythiol’ a oedd yn byw ar y gwynt, yn is-*genre* yn y pamffledi poblogaidd a gâi eu cyhoeddi yng ngogledd Ewrop o’r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen²⁰ ac y mae baled Pererin Môn yn yr olyniaeth honno. Priodola nifer o faledi Ewrop broffwydoliaethau a gweledigaethau i’r sawl sy’n ymprydio, a haera Pererin Môn beth tebyg yn achos Sarah Jacob. Pan oedd yn ei mis o lewyg dywed y baledwr iddi yn ei hysbryd grwydro’r eangderau maith:

Hi welodd ryfeddodau
Trwy ryngu bodd ei Duw,
Ond megis breuddwyd ydoedd,
Ac eto’i chorff yn fyw.

Mynegodd, do, ugeiniau
O ryfeddodau maith
A welodd yn y nefoedd
Ac hefyd ar ei thaith;
Hi welodd bererinion
A’u gynau gwynion glân
Achubodd Duw trwy gariad
Rhag mynd i Uffern dân.

Rhoddei hyn statws bron yn nefolaidd i Sarah Jacob yng ngolwg Pererin Môn. Erbyn heddiw y mae’r dehongliad o’r ferch sy’n llwgu ei hun yn wirfoddol yn un pur wahanol. Rhoddir mwy o bwyslais ar gamaeddfediad y ferch yn ystod ei phlentynod, yn enwedig yn ystod yr ardegau cynnar. Credir bod un sy’n dioddef o’r cyflwr hwn yn oreiddgar i blesio rhyw ffigur sydd mewn awdurdod, yn aml iawn y tad. Y mae’r claf yn crefu sylw ac yn crefu cariad, ac mae’n gwrthod ar ei ben unrhyw syniad o salwch meddyliol na chorfforol. Credir hefyd fod elfen o ddewis y cyflwr – ‘a degree of conscious *choice*’ yw geiriad Morag MacSweeney.²¹

Gall elfen o hyn fod yn wir yn achos Sarah Jacob. Yr oedd fel petai hi’n cael ei llwyfannu yn ei salwch, yn cael ei gwisgo mewn gwyn, yn cael ei threfnu yn y gwely i orwedd mewn rhyw ffordd arbennig ‘fel canolbwynt i fath o arddangosfa’.²² Deuai cannoedd o ymwelwyr i’w gweld, a’r rheini’n dod ag anrhegion o lyfrau – ac arian – iddi. O dipyn i beth daeth y salwch yn rhan o’i hunaniaeth. Meddai Randolph Bell am ferch sy’n gaeth i’r cyflwr hwn: ‘Anorexia becomes her identity, and ultimately the self-starvation pattern continues beyond her conscious self-control.’²³ Y mae’r ferch yn crefu llwyddiant ac y mae’n barod i dwyllo er mwyn ‘profi’ iddi ei ennill. Byddai perffeithrwydd ymddangosiadol yn digoni ei hanghenion: ‘She emerges from a frightened, insecure, psychic world superficially veiled by her outwardly pleasant disposition to become a champion in the race for (bodily/spiritual) perfection.’²⁴

A glywir llais Sarah Jacob yn y faled? Go brin. Stamp y Pererin sydd arni, a neges

fasnachol yw ei neges, yn y man cyntaf. Ni ddaw'r cyfeiriadau am broffwydoliaethau, er enghraifft, o gofnod Herbert Jones 'Myrddin Ddu' o Landysul; o ddychymyg Pererin Môn ei hun y daw'r elfen honno, a hynny o bosibl er mwyn cyflwyno neges a fyddai'n gwerthu. Cymer safiad un sy'n adrodd ffeithiau moel yr hanes rhyfeddol, ond nid mewn ffordd glae'r, ddideimlad. Eto, nid yw'n cymryd agwedd y papurau tabloid, gan ddod ag elfen orddramatig i'r stori. Y mae'n deall mai'r hyn sydd ei angen yw pwysleisio normalrwydd y ferch o ran ei chefnidir a'i theulu, a gwrthgyferbynnu hynny â'i hamgylchiadau hollol annormal yn y presennol. Eto i gyd y mae'n rhaid gofyn a oedd y baledwr yn canu o argyhoeddiad personol fod yma hanner santes yn byw drwy ras y nef, neu a oes yma bamffled amrwd a bardd calongaled yn pedlera stori i gyhoedd hygoelus.

O ran ei chynnwys y mae'r faled yn rhyfeddol o debyg i erthygl Myrddin Ddu, ac o ran ei safiad y mae'n adleisio llawer ar lais newyddiadurol y gohebydd – sy'n llais cynnes, llawn cydymdeimlad, edmygus a chllir. Seiliwyd ei erthygl ar gyfweiliad a wnaeth Myrddin Ddu â Sarah Jacob, a hynny yn ei chartref, o bosibl yng ngŵydd ei rhieni – ym mhresenoldeb ei mam yn sicr. Yr oedd Myrddin Ddu wedi cyfarfod ag Evan a Hannah Jacob ac wedi cael argraff dda o'r ddau. O'r herwydd yr oedd o'r farn fod yma ferch a oedd wedi ei dyrchafu gan Dduw i dir uwch na'r cyffredin, a bod rhyw ddirlgelwch cyfrin, urddasol i'r profiad. Esboniad gwahanol ar yr un profiad a phrofiadau tebyg yw'r un a ganlyn: 'Whether these young women refused food because they were hunger artists, con artists, or hysterics is ultimately unknowable to us today'²⁵ – yn sicr y mae awgrym yn y dyfyniad fod hynny'n bosibl. Tybed a oedd Sarah Jacob wedi cael blas ar sylw ac edmygedd cymdeithas pan aeth hi'n sâl gyntaf, ac wedyn wrth ddeffro o'i llewyg a dechrau gwella o'r salwch wedi gweld trai ar y driniaeth arbennig a'r gofal manwl yr oedd hi wedi arfer â hwy – ynghyd â'r enwogrwydd a ddeuai yn eu sgîl – trai na allai ei oddef? Cam bach fyddai iddi ddefnyddio'r salwch cyntaf i ffugio bywyd newydd a ddeuai â sylw i'w ganlyn. Gallai Sarah Jacob fod yn rhywun o bwys yn y gymdeithas, yn hytrach nag yn enghraifft arall o blentyn a basiwyd heibio gan y gymdeithas wledig, Gymreig draddodiadol.

Nid yw'n syndod fod ei hymddygiad wedi tynnu sylw'r cyhoedd. Dyma stori dda ac ymddengys ei bod yn stori wir. Cynullodd gosgordd o ganlynwyr tu cefn i Sarah Jacob: ei rhieni a'i brodyr a'i chwiorydd; cymdogion o bell ac agos; meddygon lleol a doctoriaid o bell; ficer y plwyf, a sê't fawr ac aelodau'r capel Annibynwyr. A fu twyll? Naddo meddai'r gymdeithas Gymreig fel un gŵr.

Dyma enghraifft o ferch yn mynnu dangos ei bod yn unigryw o fewn ei chymdeithas, ond ai llais Sarah Jacob yn sefydlu ei hunigolyddiaeth a glywir yn y faled? Nid felly: defnyddiodd Pererin Môn y stori hon yn destun trafod, yn destun cynnwrf cymdeithasol, ac yn fwy na dim yn lloffwr arian. Ochr arall y geiniog yw fod Sarah Jacob hithau wedi defnyddio gohebydd *Seren Cymru*, a Huw Roberts yn ei sgîl, at ei dibenion ei hun. Y mae'n amlwg ei bod hi am i'w stori gael ei chylchredeg neu byddai wedi gwrthod cael

ei chyf-weld gan y wasg. O ganlyniad i hynny fe elwodd yn sylweddol ar law'r ymwelwyr a heidiai'n ddyddiol i'w gweld. Enillodd glod a daeth i gryn enwogrwydd wrth i'w barddoniaeth gael ei chyhoeddi yn *Seren Cymru*, gan Pererin Môn, ac yn wir yn mhobman a chan bwy bynnag a fyddai'n barod i roi lle iddi.

Beth bynnag oedd cymhellion Sarah Jacob dros droedio'r llwybr hwn, gorfu iddi hi – a'i rhieni hefyd – dalu'r pris. Yn ganlyniad i'w marwolaeth annhymig fe'u cafwyd ill dau yn euog o ddynladdiad gerbron y brawdlys yng Nghaerfyrddin a'u deddfrydu i dymor o garchar: y tad am flwyddyn a'r fam (feichiog) am chwe mis.

Canodd Huw Roberts 'Pererin Môn' am ail Sarah, sef Sarah Hughes, dynes 36 oed oedd yn byw gyda'i chwaer yng Nghoed Coch, y Brithdir, gerllaw Dolgellau. Llofruddiwyd y Sarah hon mewn modd ysgeler gan Cadwaladr Jones yn ystod haf 1877.²⁶ Ni cheir crynodeb manwl o'r stori yn nheitl baled Pererin Môn,²⁷ ond yn hytrach â rhagddo ar ei union i gyfarch y dorf, cyfarch y sir lle y cyflawnwyd y drosedd, rhoi'r digwyddiad yn ei gyd-destun, ac enwi catalog o fwrdrwyr ysgeler eraill:

O dref Diram, o swydd Norfolk,
Daeth Greenacre²⁸ creulon, cudd;
Hefyd Baker,²⁹ Henry Wainwright,³⁰
Cofir rhain dros lawer dydd;
Mary Anne Cotton³¹ o West Auckland
Wnaeth weithredoedd sobr, syn,
Hefyd Fish o Blackburn,³² eilliwr,
Cofir y llofruddion hyn.

Yna darlunnir y modd y lladdwyd Sarah Hughes gan lofrudd hyll, ellyllaidd: 'Erchyll oedd cigeiddio hon.' Nodir y prif ddigwyddiadau'n gryno a chyflwynir neges foesol fwy nag unwaith, sef fod Sarah Hughes wedi ei 'hyrddio i wyddfod Brenin Ne' ac y bydd Cadwaladr Jones yn cael ei bwyso yn y glorian ar Ddydd y Farn:

Ond mae diwrnod eto'n dyfod,
Diwrnod sobr, diwrnod trist,
Pan fydd llofrudd yn ymddangos
O flaen brawdle Iesu Grist.

Yna dychwelir at y stori:

A'i thorri yn un ar ddeg o ddarnau
Wnaeth yr adyn creulon, cri,
A'u taflu oll i afon Aran

Er mynd ymaith gyda'r lli;
Glynu oll a wnaethant yno
Rhwng crychiadau dyfroedd blin;
Darganfyddwyd yr holl ddarnau
Ond y badell pen ei glin.

Nodyn deheuol sydd i'r odl *cri* [= cryf] a *lli* ac y mae elfen ansoffistigedig yn y pennill hwn a'r pennill nesaf:

Yn y llain yr oedd y llofrudd
Gerllaw i'r bedd lle buo hi
Am bum wythnos, nôl meddyliau
Dysg feddygon sydd mewn bri;
A'r swyddogion ganfyddasant
Gi yn cario darn o'i chnawd
(Parodd ddychryn i'r edrychwyr)
A'i gwallt yno, hefyd gnawd.

Yn y pennill olaf y mae Pererin Môn yn gwawdio'r llofrudd:

Gofyn wnaeth ef i'r swyddogion
Gâi e fynd i'w dŷ ei hun
I gyrchu'r Beibl glân i'r carchar,
Yr hwn sy'n barnu'r euog ddyn:
Gwell fusasai iddo syrthio
O flaen gorseddfainc Duw ein Tad
Cyn cyflawni'r fath gyflafan
A gwarthruddo tir ei wlad.

Sylwedd y faled yw manylion lliwgar y mwrdrad, a cheryddu'r llofrudd. Nid oes gan y baledwr fawr i'w ddweud am Sarah Hughes na'i hamgylchiadau, nac unrhyw esboniad am ei llofruddiaeth.

I ddysgu am ei chefnidir ac i ddatrys dirgelwch ei mwrdrad y mae'n rhaid troi at bapurau newydd y cyfnod. Dynes ddibriad a chanddi ddau o blant anghyfreithlon oedd Sarah Hughes; yr oedd yn byw gyda'i chwaer ddibriad, daflriad carreg oddi wrth ei rhieni. Cymerai Sarah Hughes olch i'r tŷ, a gweithiai ar ffermydd cyfagos yn ôl y galw er mwyn ei chynnal ei hun a'i phlant. Bu'n gweithio ar fferm Coed Mwsoglog am saith wythnos cyn ei diflaniad, ar yr un pryd ag yr oedd Cadwaladr Jones, gŵr ifanc 24 oed, yn gweithio yno; ei arfer ef oedd aros ar y fferm yn ystod yr wythnos a dychwelyd gartref at ei wraig a'i blentyn fwrw'r Sul.

Ar 4 Mehefin 1877 fe gerddodd Sarah Hughes o'i chartref yn y Brithdir i dref Dolgellau,

cwta bedair milltir. Ychydig cyn naw o'r gloch gadawodd gartref Margaret Williams yn Nolgellau, ar ei phen ei hun, ond ni chyrhaeddodd adref. Bu chwilio ofer amdani am bron i chwe wythnos – y teulu o'r farn fod rhywbeth mawr o'i le, ond yr heddlu o'r farn ei bod wedi gwneud ei ffordd i ardal y pyllau glo yn Ne Cymru i ennill bywoliaeth ymysg y glowyr. Rhwng chwech a saith o'r gloch fore Llun, 16 Gorffennaf 1877, fe welodd merch fach, wrth groesi pont bren dros afon Aran wrth fynd ar neges dros ei mam, fraich yn y dŵr. Yr oedd y llaw yn agored a darn o glwt ar ddau fys. Yr oedd Sarah Hughes wedi torri ei bysedd a'i chwaer wedi eu gwisgo mewn rhwymyn cyn iddi gychwyn allan. O dipyn i beth gwelodd gwahanol bobl wahanol ddarnau o gorff Sarah Hughes, un yn dod o hyd i goes, un arall droed, pen, ac yn y blaen. Yr oedd y corff, yn dal wedi'i ddilladu, wedi'i dorri'n ddeuddeg darn. Daethpwyd o hyd i bob darn ond un, fel y canodd y Pererin.

Oherwydd cyflwr y corff yr oedd yn amlwg nad oedd wedi bod yn yr afon yn hir, a'i fod wedi'i gladdu am gyfnod cyn ei daflu i'r llif. Yr oedd afon Aran wedi bod yn isel am wythnosau, ond ar 14 Gorffennaf a'r diwrnod canlynol cafwyd glaw trwm ac y mae'n debyg fod y llofrudd wedi gobeithio y byddai'r corff yn cael ei olchi i'r môr yn y llif mawr. Ond yr oedd Cadwaladr Jones yn anlwus. Yn fuan iawn llwyddodd yr heddlu i gasglu'r ffeithiau ynghyd a datrys y dirgelwch. Cafwyd cyfaddefiad llawn: 'dangosodd y bedd y bu y corff yn gorffwys cyn ei godi i'w ddarnio, yn yr hwn y cafwyd cnawd, gwallt, ac *umbrella* Sarah Hughes'.³³ Traddodwyd Cadwaladr Jones i ateb y cyhuddiadau yn ei erbyn gerbron y brawdlys yng Nghaer, fe'i cafwyd yn euog, a'i grogi yng ngharchar Dolgellau ar 23 Tachwedd 1877.

Ond beth a'i gwnaeth yn llofrudd? Yn ôl tystiolaeth Margaret Hughes yr oedd ei chwaer, Sarah Hughes, yn feichiog pan laddwyd hi. Ni chadarnhawyd mo hynny gan adroddiad archwiliad y post-mortem, ond yn sicr yr oedd Cadwaladr Jones a hithau'n gariadon. Rhag merwino clustiau'r Cymry ni chafwyd y stori'n llawn gan Bererin Môn. Tybed a wyddai'r manylion? Yn sicr nid oedd Abel Jones 'Bardd Crwst' mor dawedog ar y mater:

Myfi fy hun yw'r llofrudd
A wnaeth yr erchyll waith,
Fy nwylo i a'i torrodd,
Myfi a wnaeth pob craith,
Ei llifio a'i thorri â'r fwyell
A'r bidog oedd gen i,
Ei babi a'i chorffyn hithau,
Ei gwaed a rois yn lli.³⁴

Ar gynfas ehangach fe'i cawn, yr hen Bererin, yn canu am y ffrwydriad a ddigwyddodd ar 8 Mai 1884 mewn ffatri ddeinameit ger Irvine, swydd Ayr, yn yr Alban. Yn fuan wedi

i'r merched ddychwelyd at eu gwaith ar ôl brecwast fe ffrwydrodd y deinameit yn un o'r cytiau. Lladdwyd pedair merch ifanc yn y danchwa, bu farw chwech arall yn y fflamau, ac ychydig ddyddiau'n ddiweddarach bu farw pump o ferched eraill o'u hanafiadau. Dyma gyflafan fawr. Yr oedd y baledwyr yn gyfarwydd â chanu am ddamweiniau glofaol mewn pyllau glo yn Ne a Gogledd Cymru. Yn ôl Tegwyn Jones, 'mae'n amlwg mai ychydig iawn o ddamweiniau difrifol o leiaf a ddigwyddodd heb fod baled neu faledi wedi'u canu ar yr achlysur.'³⁵

Ar ei gyfaddefiad ei hun, yr oedd Pererin Môn bob amser ar frys i ganu baled cyn i neb arall gyhoeddi dim a allai gystadlu â hi am arian y dorf. Felly'n union y bu pan glywodd y Pererin am ferched y ffatri ddeinameit. Dyma faled ffwrdd-â-hi os bu un erioed. Datgela'r teitl lawer iawn o'r digwyddiadau a fydryddir yng nghorff y faled:

Cân newydd am ffrwydriad ofnadwy o ddynamite a gymerodd le mewn gwneuthurfa o'r gwyllt-bylor (*dynamite*) ger Irvine, yn swydd Ayr, Ysgotland, ar foreu dydd Iau, Mai 8fed, 1884. Ychydig amser ar ôl i'r gweithwyr ddychwelyd o'u boreufwyd, ffrwydrodd y *dynamite* (yn pwysu oddeutu dau can'-pwys a hanner) ag oedd mewn un o'r tai, lle yr oedd pedair merch yn gweithio. Chwythwyd hwynt i ddarnau mân, a chafodd rhai o'u gweddillion eu hyrddio am gannoedd o lathenni. Estynnodd y fflamiau i rai o'r bythynnod cyfagos, a llosgasant yn rhyfeddol o gyflym oherwydd y *dynamite*; aeth y merched yn y bythynnod hyn yn ddisynhwyrol, a llosgwyd hwy i farwolaeth mewn ychydig funudau, yng ngolwg amryw o'u cydweithwyr, y rhai oeddynt yn berffaith analluog i'w helpu. Cafodd pedair o ferched eu chwythu yn ddarnau, chwech eu llosgi i farwolaeth, a bu farw pump, mewn ychydig amser, oddi wrth y niweidiau a dderbyniasant. Eu henwau oeddynt:- Ann Brennan, Isabella Longridge, Mary Brennan, Mary Ann Peters, Martha M'Callister, Sarah Johnson, Elizabeth Love, Martha Haggerty, Isabella McColl, Rachel Allison, Mary McAdam, Rose Murphy, Mary Banks, Jessie Craig, a Sarah McKane.³⁶

Naws dabloid sydd i'r penillion, yn dangos amarch o'r mwyaf tuag at y merched a fu farw a thuag at eu teuluoedd. Tybed a oedd Pererin Môn yn meddwl bod yr Alban a'i phobl yn ddigon pell i ffwrdd fel nad oedd raid iddo gymryd cymaint o ofal â phetai'n canu am ei bobl ei hun? Dwy brif elfen sydd i'r faled, sef adrodd stori'n ffwr-bwt a moesegu'n ddigon amrwd. Ceisir nawdd Duw ar rieni'r merched a fu farw, a cheir nodyn rhybuddiol yn y cwpled clo, nodwedd a fyddai at ddant cynulleidfâ Gymreig anghydfurfiol y dydd:

Arglwydd tirion fyddo'n nodedd
I rieni'r annwyl ferched;
Byddwn ninnau oll yn barod
Pan ddaw angau i'n cyfarfod.

O ran cynnwys nid oes yma ôl ymchwil ddwys – i'r gwrthwyneb. Nid oedd Pererin Môn wedi cael gafael gadarn ar y ffeithiau cyn dechrau canu, ond efallai na fyddai hynny i'w ddisgwyl a'r Alban mor bell, a'r amser mor fyr. Meddai'r Pererin:

O fewn bwthyn rhif yr wythfed
Trin y pylor oedd y merched.

Yn ôl adroddiad y papur lleol ar y danchwa drannoeth y ddamwain: 'At about twenty minutes to nine o'clock, No. 7 cartridge hut blew up'.³⁷ Rhif saith, rhif wyth – oedd ots? Tenua iawn oedd dealltwriaeth Pererin Môn o sut yr oedd ffatri fel hon yn gweithio.

Codwyd ffatri Nobel's Explosive Company ychydig i'r gorllewin o dref Stevenston, ar aceri o dir a oedd nid nepell o'r traeth rhwng Stevenston a Harbwr Irvine. Gwaith y merched a laddwyd oedd gwneud cetris a'u pacio, a lleolwyd pedair merch ym mhob un o'r deg cwt ar hugain a godwyd yn y twyni. Cytiau pren digon syml oedd y rhain – fawr mwy nag ystyllod wedi'u rhoi at ei gilydd a tho tarpwlin drostynt. Ar fore'r ffrwydriad fe chwythodd cwt rhif 7 yn ulw – fawr o syndod o ystyried bod dau gant a hanner o bwys i o ddeinameit yn y cwt. Cymaint oedd nerth y danchwa fe hyrddiwyd y pedair merch gannoedd o lathenni yn y ffrwydriad; roedd dwy o'r rheini'n chwioridd ac yn byw yn lleol, sef Ann a Mary Brannan (*Brennan* yn ôl Pererin Môn). Estynnodd y tân i dri o'r cytiau cyfagos, sef cwt rhif 5 (lle llosgwyd dwy i farwolaeth), cwt rhif 6 (lle llosgwyd dwy arall), a chwt rhif 8, sef yr un oedd ar feddwl Pererin Môn (lle llosgwyd dwy arall eto, dwy Isabella). Tystiolaeth Mary Banks, un o'r rhai oedd yn gweithio yng nghwt rhif 5 ac a arbedwyd, oedd ei bod hi wedi clywed y ffrwydriad, fod y ffenest wedi ei chwythu i mewn atynt, a'r lle wedi mynd yn ffwrn dân ar amrantiad. Yr oedd hi'n wyrthiol na chafodd hithau ei bwyta gan y fflamau.

Er y fath alanastra, diffyg difrifoldeb yw prif nodwedd baled Pererin Môn, ynghyd â'i harddull flêr, ddiaphael. Nid yn unig y mae ansawdd y naratif yn swta, y mae'r mesur hefyd yn anfodhhaol. Canwyd deg pennill ar y Mesur Hir, sef 4 llinell o wyth sillaf yr un. Y mae'r mydr yn hynod anwastad, a'r nifer sillafau yn pendilio'n wyllt rhwng rhy ychydig a llawer gormod. Ni nodwyd alaw ar y daflen faledi, ond byddai'n rhaid bod yn hynod ofalus wrth briodi'r geiriau ag alaw weddus.

Cyfieithwyd y faled i'r Saesneg, gan Pererin Môn ei hun gellid tybio, a chyhoeddwyd y cyfieithiad yn gymar i'r faled Gymraeg ac ar yr un daflen â hi. Er mai carbwl iawn yw'r Saesneg gosodwyd a ganlyn wrth droed y fersiwn hwnnw: 'This Song is the copyright of the Author'. Dyma bennill enghreifftiol:

Just before nine in the morning
All of them were in the building,
When they'd just come back from breakfast
Great explosion through the dynamite.

Disgwylir bod *breakfast a dynamite* yn odli. Estyn y llinell nesaf y dychymyg pan droir pedair yn ddeg:

Ten of them were blown to pieces
Lost their precious lives – poor lasses!
What a sight to see them burning
Just at nine on Thursday morning.

Two of them jumped out through windows,
Others burned in flames and terrors;
Arms and legs torn from the body
While they screaming out for mercy.

Bron nad yw'r fersiwn Cymraeg yn fwy anweddaidd na'r fersiwn Saesneg, a cheir ynddo ar brydiau elfen greulon, rhyw annhosturi tramgwyddus:

Gweled pump o'r merched bychain
Yn cael eu chwythu i'r ffurfafen;
Ar ôl disgyn, O! drueni,
Roedd eu 'menydd hyd y meini.

Cafwyd darnau o gyrff rheini
Amryw gannoedd o lathenni;
Pen a thraed y merched tirion
Wedi cymysg â'r adfeilion.

Daw'n amlwg nad oedd y Pererin yn cyfieithu'n llythrennol: yn y Gymraeg fe chwythwyd pum merch yn deilchion, ond deg yn Saesneg.

Y mae'n syndod pa mor wahanol yw naws y faled hon i naws rhai o'i faledi eraill. Dyma faled sy'n adrodd hanes trychineb ysgytwol, a'r Pererin yn trin ei gymeriadau mewn ffordd sy'n ymylu ar fod yn sarhaus er ei fod yn llawn trugaredd a chydymdeimlad tuag at Sarah Jacob a Sarah Hughes. Ai am eu bod hwy'n Gymraesau? Neu ai oherwydd diffyg amser, ac awydd am geniog fach sydyn?

Y merched a ysgogodd awen Pererin Môn oedd Sarah Jacob, a lwgodd ei hun i farwolaeth erbyn ei bod yn ddeuddeng mlwydd oed, Sarah Hughes y ddynes 36 oed a lofruddiwyd gan ei chariad, a'r merched hynny a fu farw yn y danchwa yn swydd Ayr, neu a losgwyd yn y fflamau. Dyma dair stori ryfeddol ar sawl cyfrif, gyda pheth tebygrwydd rhyngddynt. Yn gyntaf, merched y dosbarth gweithiol yw merched Huw Roberts 'Pererin Môn'; yr oeddynt hwy a'u teuluoedd yn gymharol dlawd ac yn ennill

eu bara menynd i bob pwrpas drwy wneud gwaith caib a rhaw. Yn ail, y mae integriti'r merched hyn yn ddigwestiwn yn ei olwg: beth bynnag am ei arddull, y mae'n gwarchod enw da'r merched ac yn mynnu eu bod yn meddu ar egwyddorion moesol cryf. A oedd sail i hynny? Ochr arall y geiniog yw fod Sarah Jacob yn dwyllwraig ddigwybod; Sarah Hughes yn caru â gŵr priod ar y slei ac yn cario'i blentyn; a merched swydd Ayr (os credir awgrym yr *Ardrossan & Saltcoats Herald*) o bosibl yn gyfrifol am eu tynged eu hunain oherwydd y 'larking' a'r 'irregularity' a oedd wedi digwydd yn eu mysg. Os felly yr oedd, y mae'r Pererin yn brathu ei dafod. Porthi hwyliau'r cyhoedd a bentynrai i'r ffair ac a dafiai geiniog i'r baledwr a wnâi Pererin Môn. Os credai'r cyhoedd a brynai faledi yn niniweidrwydd y merched hyn, dyna farn ysgrifbin y Pererin hefyd.

NODIADAU

¹ Traddodwyd fersiwn ar y papur hwn yng Nghynhadledd y Comisiwn Baledi Rhyngwladol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd, Gorffennaf 2008.

² LIGC, Baledi a Cherddi 6, baled rhif 146; am fanylion llawn gw. Mari A. Williams, 'Jacob, Sarah (1857–1869)', *Oxford Dictionary of National Biography*, cyhoeddiad ar-lein (Mai 2005); J. Cule, *Wreath on the crown: the story of Sarah Jacob, the Welsh Fasting Girl* (Llandysul, 1967).

³ Tegwyn Jones, 'Sarah a Rhai Merched Eraill', *Llafar Gwlad*, 37 (1992), 8. Lluniwyd cerddi i Gaenor Hughes gan Jonathan Hughes, Llangollen, yn ogystal, gw. Siwan Rosser, *Bardd Pengwern* (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), tt. 137–43; dau englyn o'i waith sydd ar garreg ei bedd.

⁴ Ar hanes Mary Thomas a Gaenor Hughes gw. Brenda Parry-Jones, 'Miraculous or Malingering?: Two eighteenth-century Merioneth fasting women', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, xv (2006), 44–69.

⁵ Ymwelydd, 'Borth, Ceredigion', *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Ionawr 1878, 11.

⁶ Gw. *Seren Cymru*, 29 Ionawr 1869, 5.

⁷ Loc. cit.

⁸ Golygwyd y dyfyniadau o'r baledi o ran atalnodi ac orgraff.

⁹ Gw. Llyfr Josua yn yr Hen Destament iii.9–17.

¹⁰ Gw. hanes yr Israeliaid yn croesi'r Môr Coch yn Llyfr Exodus xiv yn yr Hen Destament.

¹¹ Bore a hwyr deuai cigfrain â bara a chig i'r proffwyd Elias ar lannau Cerith, gw. I Brenhinoedd xvii.3 yn yr Hen Destament.

¹² Ar wrthryfel Cora, Dathan ac Abiram yn erbyn Moses, gw. Llyfr Numeri xvi.

¹³ Taflwyd Sadrach, Mesach ac Abednego i'r ffwrn dân am wrthod addoli'r ddelw aur a wnaeth y Brenin Nebuchadnesar, gw. Llyfr Daniel iii yn yr Hen Destament.

¹⁴ Cosbwyd Nebuchadnesar, brenin Babilon (am ei falchder) ag ynyfdrwydd, a bu'n pori gwellt fel eidion cyn ei adfer i'w iawn bwyll saith mlynedd yn ddiweddarach, gw. Llyfr Daniel iv.

¹⁵ LIGC, Casgliad Baledi J. D. Lewis (Llandysul), 111b.

¹⁶ LIGC, Baledi a Cherddi 17, baled rhif 24, pennill 1, llau 7–8.

¹⁷ Rudolph Bell, *Holy Anorexia* (Chicago, 1985); Caroline Walker Bynum, *Holy Feast and Holy Fast* (Berkeley, 1987).

¹⁸ Gw., er enghraifft, yr hanes am edifeirwch yr Israeliaid yn yr Hen Destament yn Llyfr y Barnwyr xx.26.

¹⁹ Nancy A. Gutierrez, 'Shall she famish then?': *Female Food Refusal in Early Modern England* (Aldershot, c. 2003), t. 10.

²⁰ Gw. *ibid.* Atodiad III, tt. 117–23 am restr gronolegol o'r disgrifiadau o ferched gwythiol a gyhoeddwyd yn Lloegr yn y blynyddoedd 1589–1677; lle nodir enw awdur, sylwer mai enw dyn a geir.

²¹ Morag MacSween, *Anorexic Bodies: A Feminist and Sociological Perspective on Anorexia Nervosa* (London, 1993), t. 15.

²² D. G. Lloyd Hughes, 'Hanes hynod Sarah Jacob y ferch a lwgwyd i farwolaeth', *Y Casglwr*, 51 (Gaeaf 1993), 5.

²³ Rudolph Bell, *Holy Anorexia* (Chicago, 1985), t. 20.

²⁴ Loc. cit.

²⁵ Nancy A. Gutierrez, *op. cit.* t. 80.

²⁶ Cadwyd pedair baled arall ar yr un testun, y gyntaf gan Evan Griffiths 'Ieuan o Eifion' a hynny ar ôl arestio Cadwaladr Jones ond cyn y gwrandawriad; gyda'r faled hon argraffwyd y gân 'Llythyr fy Nhad' lle y mae Cadwaladr Jones yn mynegi edifeirwch, gw. LIGC, Baledi a Cherddi 2, baled rhif 60. Yr ail faled yw 'O! Meirion! y frodir hyfydaf!' gan faledwr anhysbys a hynny'n dilyn y dyfarniad ar yr achos, gw. LIGC, Baledi a Cherddi 29, baled rhif 28. Canwyd ymhellach ddwy faled o waith Abel Jones 'Bardd Crwst', sef 'Ow! ow! Gymru lân grefyddol' (am yr wyneb-ddalen gw. Tegwyn Jones, *Abel Jones, Bardd Crwst* (Capel Garmon, 1989), t. 63), a 'Cân newydd am ddiennyddiad a chyfaddefiad Cadwaladr Jones ... a'i dreial' (gw. *ibid.* tt. 30–4).

²⁷ Crynhowyd y manylion yn llawn yn T. Llew Jones, *Gwaed ar eu Dwylo* (Llandysul, 1988), tt. 60–73; Hywel Teifi Edwards, 'Cyflafan Dolgellau', *Cof Cenedl*, xxiv (2009), tt. 93–124.

²⁸ James Greenacre o Dereham yn swydd Norfolk, a ddiennyddiwyd (2 Mai 1837) am lofruddio a darnio Hannah Brown, ei gariad; am faled Ieuan ab Job, Pendarren, ar y testun gw. LIGC, Baledi a Cherddi 24, baled rhif 77.

²⁹ Lladdodd Baker ferch fach wyth oed o'r enw Fanny Adams; am faled Ieuan o Eifion ar y pwnc gw. 'Chwi fonedd a chyffredin' yn Llyfrgell Prifysgol Abertawe; a gw. 'Execution of Frederick Baker, the Alton Murderer' (1867) yn Charles Hindley, *Curiosities of Street Literature* (London, 1871), t. 205.

³⁰ Gilda O'Neill, *The Good Old Days: Crime, Murder and Mayhem in Victorian London* (London, 2006); cyffrowyd Abel Jones 'Bardd Crwst' i ganu am y llofruddiaeth, gw. LIGC, Baledi a Cherddi 6, baled rhif 124; am faled Evan Griffith gw. Caerdydd ii, 99.

³¹ Arthur Appleton, *Mary Ann Cotton: Her Story and Trial* (London, 1973); lladdodd o leiaf ddwsin o aelodau o'i theulu.

³² Yn 1876 lladdodd William Fish, barbwr yn Blackburn, ferch fach saith oed o'r enw Emily Holland a'i darnio; gw. LIGC, Baledi a Cherddi 5, baled rhif 66;

<http://nrs.harvard.edu/urn-3:HLS.Lib:1031606> am fanylion yr achos, ynghyd â baled Saesneg.


³³ Rhan o deitl baled Evan Griffiths 'Ieuan o Eifion', gw. LIGC, Baledi a Cherddi 29, baled rhif 28.

³⁴ Tegwyn Jones, op. cit. t. 32.

³⁵ Idem, 'Y baledi a damweiniau glofaol', *Canu Gwerin*, 21 (1998), 3.

³⁶ LIGC, Baledi a Cherddi 13, baled rhif 31.

³⁷ *Ardrossan & Saltcoats Herald*, 9 Mai 1884.



PRISON BARS

Tegwyn Jones

Yng nghasgliad Prifysgol Bangor o faledi'r ddeunawfed ganrif y mae un, a gyhoeddir isod o ran diddordeb, sy'n cofnodi chwarae'r gêm a elwid yn 'Prison Bars' rhwng nifer o Gymry a Saeson ar forfa gerllaw pentref Saughal, ar Benrhyn Cilgwri yn 1791 – gornest a drefnwyd cyn hynny, meddir, mewn gwylmabsant ym Mhenarlâg. Fe'i rhestrir yn *A Bibliography of Welsh Ballads*, rhif 237, yn un o ddwy faled ar yr un daflen, o dan y teitl byr a phrin ei wybodaeth, 'Cerdd ar, Cast Away Care', ond ychwanegodd J. H. Davies y nodyn, '[B]y E. Jones, Clerk of Hope. The latter describes a game of "Brisonsbars" (Base, or Prisoners' Bars) played between Welshmen and Englishmen of the parishes of Lyngen and Shotwick, near Chester'. 'Cast away care, neu care away' yw enw'r alaw o dan un o'r baledi yn *A Bibliography of Welsh Ballads*, rhif 118, ac o dan un arall o'r baledi, rhif 250, ceir fersiwn Cymraeg ar ei henw, sef 'Bwrw Gofal Ymaith'. Ofnir mai drychiolaeth yw 'Lyngen' J. H. Davies oherwydd ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw blwy o'r enw hwnnw yng Nghilgwri a'r cyffiniau. Ymddengys mai ef piau'r 'n' yn yr enw hefyd oherwydd 'Lygen' yw'r ffurf yn y faled bob tro, sef mae'n debyg, ffurf ar Helygain (Halkyn), enw plwyf yn sir Fflint. Yn wir, y mae Ellis Davies, yn ei gyfrol *Flintshire Place-names* (1959), yn cofnodi'r ffurf 'Y Lygen' o lawysgrif o'r flwyddyn 1590. Yn un o'r nifer o linellau Saesneg a geir yn y faled cyfeirir at y chwaraewyr o Gymru fel 'Halkin Boys', ac yn y llinell olaf un digwydd y gair 'mwynwyr', y gall fod iddo ddau ystyr yma, un ohonynt yn ein hatgoffa i ardal Helygain fod yn enwog yn y gorffennol am ei diwydiant mwyn plwm. Ymffrost y bechgyn, yn ôl y faled, yw nad oedd angen iddynt hwy fynd y tu hwnt i ffiniau'r plwy i godi tîm, tra bu'n rhaid i dîm Shotwick chwilio am help o'r tu allan – o Lerpwl hyd yn oed – i gyflawni hynny. Yn ogystal â'r chwaraewyr eu hunain, ymddengys fod nifer o'u cydbwyfolion wedi teithio gyda hwy i'w cefnogi. O blith y tîm Cymreig enwir tri, sef Joseph a John Hooson – brodyr mae'n debyg, gweler pennill 5 llinell 9 – a George Rhadfor, a'r dwthwn hwnnw, y Cymry aeth â hi.



Yn eu cyfrol *Childrens' Games in Street and Playground* (y gyfrol gyntaf, lle ceir ymdriniaeth ar chwaraeon sy'n ymwneud ag ymlid, dal a chwilio), y mae Iona a Peter Opie yn disgrifio'r chwarae arbennig hwn, a elwid hefyd yn 'Prisoners' Bars', 'Prisoners' Base', 'Chevy Chase', 'Chivy', 'Country Base', 'Fast and Loose', neu'n syml, 'Base' yn unig. O fewn sgwâr ar ddarn o dir agored byddai angen dau 'wersyll' yn un pen a dau 'garchar' yn y pen arall. Amrywiai nifer y chwaraewyr – gellid cael hyd at ugain neu fwy ym mhob tîm. Heb fanylu'n ormodol, a rhaid cofio hefyd fod amrywiadau ar y gêm, anfonai capten y tîm cyntaf un o'i chwaraewyr i'r canol i herio'r tîm arall, ac yn syth anfonid rhywun o'r ail dîm i'w ymlid a cheisio'i ddal trwy gyffwrdd

ynddo a'i 'garcharu'. Tynged yr ymlidiwr hwnnw fyddai iddo yntau yn ei dro gael ei ymlid gan ymlidiwr o'r tîm cyntaf, gyda'r un bwriad, ac felly yn y blaen. Dyletswydd pob chwaraewr oedd sicrhau nad achubid y carcharor(ion) a roddwyd ganddo yng 'ngharchar' ei dîm ei hun, tra'i fod ar yr un pryd yn ymdrechu i achub unrhyw gyd-aelod a gafodd ei hun yng 'ngharchar' y tîm arall. Dôl'r chwarae i ben pan fyddai pob aelod o un tîm yng 'ngharchar' y llall, neu ar ddiwedd y cyfnod penodedig y byddid wedi cytuno arno ar y dechrau. Yn yr achos hwnnw, y tîm â'r mwyaf o garcharorion fyddai'n cario'r dydd. Dyma gêm gymhleth a alwai am gryn ganolbwyntio ar ran y chwaraewyr, a goruchwyliaeth fanwl ar ran y ddau gapten.

Y mae i'r gamp hanes hir. Noda'r Opies gyfeiriadau at ei chwarae yn Ffrainc – ei chartref cyntaf yn ôl pob tebyg – yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac y mae gennym dystiolaeth iddi gyrraedd Cymru'n weddol gynnar. Sonia'r cywyddwyr yn drosiadol amdani wrth yr enw 'Chwarae bars'. Yn ei foliant i Siaspar Tudur, meddai Lewis Glyn Cothi (c. 1420–89):

'E chwery bars rhwng y Mars a Môn,
ef a ladd yno fil o ddynion.¹

A thrachefn, gan yr un bardd, mewn cywydd moliant i ddau fab Ieuan Coch:

Gwn yn deg ac yn segur
gware bars rhwng deugarw bur.
Fy nhraed a fu yn rhedeg
obry rhwng eu deudy'n deg.²

Ceir cyfeiriadau tebyg yn ogystal yng ngwaith Lewys Môn (*fl.* 1485–1527) a Wiliam Llŷn (1534/5–80).

Y mae llenyddiaeth Saesneg hefyd yn frith o gyfeiriadau at y gêm, gan gynnwys gwaith Shakespeare ac Edmund Spenser. Ceir o leiaf un faled Saesneg sy'n cofnodi ei chwarae rhwng tîm o wŷr priod a thîm o rai dibriod yn Ellesmere, swydd Amwythig, ym mis Awst 1764. Gêm gyflym a chorfforol ydoedd yn ôl pob dystiolaeth sydd ar gael. 'In the heat of the chase,' meddai Arnold Bennett yn ei nofel *The Old Wives' Tale*, 'a man might jump into the canal to escape his pursuer' ond datblygodd yn gêm boblogaidd i fechgyn ysgol yn ddiweddarach, ar ôl ei glastwreiddio gryn dipyn.

Diweddarwyd yr orgraff isod a safonwyd y sillafu a'r atalnodi.

Cerdd ar *Cast Away Care*

1. Fel yr hapiodd dweda i'n bendant,
Ym Mhenarlâg ar wylmabsant,
Wrth ben y cwrw, twrw taeru,
Rhwing y Saeson a rhai Cymry.
Y Cymry a fynnan y gorau yn ddi-gêl
Am lawer camp eured gan siwred â sêl,
A'r Saeson ni ildien dros lefain yn llaes
Y gorau nhw garien, y mynnen nhw'r maes,
Y Cymry a ymladden am y gore'n ddi-gas,
A'r Saeson a'u Saesneg am redeg y ras.
2. Wrth fwyn siarad, ac weithiau yn surion,
Yno o'r diwedd *match* a wnaethon
O *Brisson-bars*, a'r Sais oedd ffyrnig,
Rhwing plwy Lygen a phlwy Shotwick,
I fwyn ymgyfarfod ar forfa deg iawn
Gyderbyn* â Saughal ar ddydd Mawrth brynhawn,
Lle darfu cantoedd, ar [g]lyhoedd mi a'i gwn,
O Gymru ymgyfarfod, dydd hynod oedd hwn,
Ac ynghylch dau ddeugain o'r Saeson a'u sŵn,
A'r rheini mor llyrfion* eu calon â'r cŵn.
3. Fe fuon yno yn hir yn rhodio
Heb wybod chwarae a wnaent ai peidio,
A'u hesgus oedd na feddent ddigon
Mewn wych raddol yno o chw'ryddion,
A'r *fatch* wed[i] rhwymo ar amod yn siŵr
Rhwing y Cymry a'r Saeson am goron y gŵr,
The English declared, '*Not so we did say,*
For a groat or for sixpence each man we will play,
We will play for no more, God preserve us our lives,
We wish that we were at home with our wives'.
4. 'Ran pleser i'r cwmpeini llawen
A ddaeth yno efo Lygen,
Am chwecheinioge chware a wnaethon,
A gadael iddynt bigo eu chw'ryddio[n]
O'r fan ag y fynnen, nid oedd waeth ganddynt hwy.
O Lygen ni chymren neb allan o'r plwy,
Ymddiosg y gwnaethon yn union i'r nod

Ac allan rhedason, cadwason ein clod;
Y dyn cynta a gawson oedd burion yn bod,
A chael y diwetha ymhen gyrfa'n nod.

5. Bu yno floeddio mawr aneiri,
Curo'r gorau o fewn Cilgwri,
Fe gaed ei gymryd ar ei gamrau
Er mor sydyn oedd ei sodlau,
Pan aeth hi yn *fatch* dirion bu yno'r fath floedd
Torlennydd Cilgwri yn crynu, gwn, oedd;
The Englishmen then were struck mighty sad
And replied that Jo Hooson was a very good lad,
'The brothers and all Halkyn boys,' they said,
'Have ticked us and mocked us and very well played.'

6. *First we thought that the brave Englishmen
Would make fools of the Welsh men,
But now it's turned quite contrary,
We are fools and they are wisely,
Lusty and hearty stout fellows, we feel
Them to be at present with very good heels,
Though we can get good money in store,
Indeed we will play with the Welshmen no more,
If we say any thing concerning our sore
They'll thrash us and bang us and send us ashore'.*

7. Er maint oedd dull a bryd y Saeson
Redeg y Cymry i gyd yn ddeillion,
Fe ddarfu iddyn-nhw gamgymeryd
Ac fe ddaeth atyn-nhw atal dwedyd.
Y Saeson hebryngai lythyrau llaith hir
[I] derfynau torfeini Cilgwri yn glir,
A hefyd i Lerpwl yn fanwl eu cwyn
I geisio rhai gorau eu doniau ar dwyn,
Er cael eu deisyfiad erfyniad yn fwyn
Plwy bychan Lygen a'u curodd yn grwyn.

8. Y *fatch* a gaed rhwng tri o'r chw'ryddion,
Un ar ddeg o'r dyniau'n dirion,
Joseph Hooson a dynnodd allan –
Fe gafodd chwech â'i law ei hunan,
John Hooson [a] gymrodd, fo drawodd o dri,
A dau gadd George Rhadfor, yn ffraethlon ŵr ffri,

Wel dene'r *fatch* dirion wych union a'i chael
A chadd y gwŷr bywiog hoff enwog heb ffael,
Fe haedden' glod fawredd eill triwedd heb drael,
Gwŷr buan eu mawrllles, da welais, di wael.

9. Er cynted traed gan wŷr Cilgwri,
A hefyd cyfrwys cael eu cyfri,
Pedwar dyn o'r *fatch* a gawson
Ac un o'r rhain wrth daeru'n dirion;
Ar dant ac ar dafod rhown fawrglod yn frau,
I Lygen y canwn, cydglymwn yn glau,
On'd gwydol y chwaraeon, naws [b]urion tros [b]en?
Nhw haedden' glod fawredd, llwys fwriad [e]r sen,
Ac yn ôl eu haeddiant, rhown ifanc a hen,
Glod i'n cyd-wladwyr fel mwynwyr, Amen.

E. Jones, Clerk of Hope.

Argraffwyd yng Nghaerlleon gan Tho. Huxley, yn y flwyddyn, 1791.

*Cymerir mai ffurfiau tafodieithol yw'r rhain.

NODIADAU

¹ Dafydd Johnston, *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), t. 35 (llau 39–40).

² Ibid. t. 345 (llau 19–22).

RHAGOR O RIGYMAU DOLGELLAU A'R CYLCH

Olwen Clough a John Clough



Mary Elizabeth Thomas (mam yr awdur) ac Anne Meredyth Thomas
(nain yr awdur) yng ngardd eu cartref yn Nolgellau, sef Bank View,
South Street, c. 1918

Wrth geisio cofio rhai o rigymau ardal fy mebyd yn Nolgellau y llynedd daeth i'm cof amryw o hen rigymau yr oeddwn yn gyfarwydd â hwy. Eleni eto cefais fwynhad mawr yn troedio hen lwybrau'r cof, a daeth rhagor o benillion i'r fei. Arferwn ganu'r ddau rigwm cyntaf gyda fy Nain, Anne Meredyth Thomas, a hynny tua dauddegau'r ugeinfed ganrif.

1. Dacw Mam yn dyfod
Ar ben y gamfa wen,
Rhywbeth yn ei phoced
A phiser ar ei phen;
Jim Cro Crystyn
One, Tw, Four,
A'r mochyn bach yn eistedd
Mor ddel ar y stôl.

2. Pwsî Felen Dew
Lle collaist ti dy flew?
Wrth gario tân i Modryb Siân
Drwy'r eira mawr a'r rhew.

Cofiais hefyd am y rhigwm dilynol. Yn Nolgellau yr oedd teulu oedd yn golchi i bobl yr ardal ac yn casglu'r dillad budron o'r cartrefi. Ond dwn i ddim am y chwain!

3. Pandy Rodyn dirion
Chwain a phigau hirion,
Pwt o fwthyn bach to gwellt
A phac o ddillad budron.

Ar destun gwahanol, arferai fy mam a fy nain sôn am hen garreg fedd mewn mynwent ger y Bala. Dyma'r geiriau ar y garreg:

4. Dyn du o wlad bell
Mae'r dyn gwyn yn fawr gwell
Claddwn di efo'n
Tadau a'n teidiau
Os coda nhw
Diaw coda dithau.

Ac wrth sôn am fynwentydd, dyma'r rhigymau yr arferem eu dysgu am addolwyr yn y gwahanol enwadau:

5. Baptist y dwr
Yn meddwl yn siwr
Chaiff neb fynd i'r nefoedd
Ond Baptist y dwr.

6. Wesla wyllt
Hetiau gwellt
Yn gyrru mellt a tharanau.

7. Methodist, Methodist creulon cas
Mynd i'r capel heb ddim gras
Gosod seti i'r bobol fawr
Gadael tlodion ar y llawr.

Nesaf fe hoffwn rannu gyda'r darllenwyr y gân roedd Nain a'i ffrindiau yn ei chanu cyn iddynt ymadael â Dolgellau. Roeddynt yn sefyll mewn cylch yn y gegin yn Bank View. Mae'r canu bendigedig a'r geiriau estron yn dal yng nghof yr eneth fach oedd yn gwrandao yn y gornel!

Emyn ffarwél

O a wee wee a wa waka
O a wee wee a wa waka
Ani kookie ka
So ani metra
Ani kookie ka
So ani metra
Thretest biest
Sali buli beia
O waa waa waa
Frimp am fro
Frimp am fro
Sali buli beia.

Ac yn awr rwyf am droi i'r Saesneg. Many years ago I read a request wanting information regarding the above rhyme. A Rochdale born lady living in Australia always sang this song to her children. I replied giving her Nain's story. I also thought that visiting missionaries had brought this song to Wales. She replied that her grandparents came from Pwllheli and that as a child she had sung with them in the open air of a summer's evening. She was now an old lady living with her memories, her recording of the Morryston Male Voice Choir, and her copy of Sir Arthur Quiller-Couch, the monumental *Oxford Book of English Verse 1250–1900*. We corresponded a few times. Her last letter ended thus:

The poet said:
We are a part of all we meet
Thank you for letting me meet you.

Many years ago I heard Sir T. H. Parry-Williams discussing this song on Welsh television. He was of the opinion that missionaries had brought it to Wales from Africa.

Sometimes I find writing in English easier – after all my father was English, and I have lived 66 years in England. But my love of Wales and the Welsh language has never diminished.

Yn ddiweddarach derbyniwyd y darn a ganlyn oddi wrth John Clough, mab Mrs Olwen Clough.

I think that the piece mentioned by my mother is pidgin English and possibly comes from Nigeria. I'm not a scholar so this is pure guesswork, although I have heard lyrics in similar style by Fela Kuti.

What suggests this is the use of the word *waka*. This is pidgin for 'walk'. Is it without the bounds of possibility that *O a wee wee a wa waka* could be 'O we were walking'?

I think that *Ani kookie ka* might mean 'Anybody can'; *So ani metra* is possibly 'So any master'.

GOLWG GYFOES AR Y CANU MAI

Rhiannon Ifans

Bu'r Cymry yn dathlu dyfodiad Mai ers canrifoedd. Cyfnod i lawenhau ydoedd, ac i fawrygu rhialtwch haf. Yn ôl y dull Celtaidd o gyfrif, y dydd cyntaf o Dachwedd oedd dydd cyntaf y flwyddyn, a chwe mis yn ddiweddarach, ar Galan Mai, fe gyferchid dydd cyntaf ail hanner y flwyddyn. Rhan o'r dathliadau hapus hynny oedd canu carolau i gyfarch y tymor a'i hyfrydwch.

Mae'r enghreifftiau o garolau Cymraeg i Galan Mai yn lluosog. Prif ffynhonnell yr enghreifftiau cynharaf yw'r llawysgrifau, lle y ceir cynhaeaf toreithiog i'r lloffwr brwd. Erbyn y ddeunawfed ganrif ymddengys llawer o gerddi Mai yn yr Almanaciau, a cheir amryw mewn pamffledi baledi yn gymysg â'r baledi newyddiadurol. Cyhoeddid carolau Mai hefyd mewn casgliadau o farddoniaeth yn enwedig erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft 'Haf-gân ar y dôn a elwir Spain Wenddydd' gan Thomas Edwards 'Twm o'r Nant' yn *Gardd o Gerddi* (t. 83), casgliad a gyhoeddwyd yn 1826, a chyhoeddwyd amryw garolau yn *Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol* Thomas Jones yn 1696.¹ Y bardd Cymraeg a gysylltir amlaf â'r carolau Mai yw Huw Morys (1622–1709) o Lansilin, sir Ddinbych.²

Dyna'r cefndir. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu adfywiad cyffrous ym myd cerddoriaeth offerynnol draddodiadol yng Nghymru, gyda nifer o gyfleon hyfforddiant yn cael eu cynnig i offerynwyr hen ac ifanc. Mae'r traddodiad o ddawnsio'r hen ddawnsfeydd Cymreig hefyd wedi cael sylw mawr ac wedi cael hwb sylweddol ymlaen, yn enwedig yng Ngŵyl Cadi Ha a gynhelir yn yr Wyddgrug. Christopher Bailey yw sylfaenydd a Chadeirydd Gŵyl Cadi Ha, ac ers sawl blwyddyn bellach mae dawnsio dawnsfeydd traddodiadol ar Galan Mai wedi bywiogi canol tref Treffynnon.

Ond mae sefyllfa'r traddodiad lleisiol ymhell ar ôl o ran cyfleon i dderbyn hyfforddiant swyddogol ym maes canu gwerin. Nid yw'r un arlwy ar gael i'r traddodiad lleisiol. Mae hyfforddiant lleisiol, hynny sy'n bodoli, yn dibynnu i raddau helaeth ar ewyllys da unigolion o fewn y gymdeithas, ac mae'n dod i benllanw fel arfer mewn cystadleuaeth eisteddfodol. Teimlad llawer yw fod canu gwerin fel y'i clywir ar lwyfannau eisteddfodau Cymru heddiw yn wahanol iawn i'r hen ganu traddodiadol a glywid gynt. Yn wir mae'n ymdebygu fwyfwy bob dydd i ganu clasurol, a'r datgeiniaid yn defnyddio'r un dulliau trosglwyddo ag a ddefnyddir wrth gyflwyno cân gelf. Un ffordd o atal y duedd hon tuag at ganu *lieder* yw cynnig canllawiau i gantorion ynghylch naws y gân werin Gymreig, a'r dull o'i chanu. Un o gewri byd y gân werin yng Nghymru oedd Emrys Cleaver, a lleisiodd yntau'r un pryder dros chwarter canrif yn ôl.

Mi gefais y fraint ... o fod yng nghwmni J. Lloyd Williams. 'Rown i'n byw yn Nyffryn Clwyd am gyfnod ac yntau'n byw yn Rhuthun, o fewn ergyd carreg i

mi, ac 'rown i yn ei gwmni fe yn barhaus. Ac mi 'roedd e'n rhoi nid cynghorion, ac nid unrhyw gyfarwyddyd pendant, ond mi 'roedd e'n *trafod* yr alawon â mi. Ac mi awgrymodd rai imi i'w dysgu nhw; 'roedd e'n meddwl y byddai'r rheini yn fy siwto i. Dyna'r cwbl wnaeth e' – ond mi roddodd *gefnidir* yr alawon hynny i mi, a'r geiriau, ac 'roedd hynny yn gystal *dysgu* â dim yn y byd ... Mae'n hawdd 'nabod y cystadleuwyr yma sydd wedi cael eu *dysgu*'n ormodol fel y cyfryw. Mae plant yn cael eu dysgu'n ormodol o lawer iawn, ac 'rych chi'n 'nabod rheini ar unwaith, a nhw sydd yn colli'r wobr. Mae nhw'n mynd i *unawdu*; canu'r unawd fawr ar y llwyfan yn hytrach na chanu a chyflwyno'r alaw werin, yn naturiol ac yn ddiroddres.³

Erbyn heddiw dagrau pethau yw mai'r sawl sy'n unawdu sy'n cipio'r wobr yn aml iawn.

Dibenion mwyaf y ddau ddiwrnod hyfforddiant a gynhaliwyd eleni mewn canu carol Fai oedd trafod cefndir y traddodiad, trafod y geiriau a'r alawon, a thrafod arddull cyflwyno cân werin draddodiadol. Cynhaliwyd y naill ddiwrnod (28 Ebrill 2009) yng Nghanolfan Arad Goch yn Aberystwyth yn rhan o'u dathliadau pen blwydd yn ugain oed, a'r llall yn Amgueddfa Werin Cymru (fel y gŵyr darllenwyr *Canu Gwerin* amdani) yn Sain Ffagan (4 Mai 2009). Cynhaliwyd y ddau weithdy dan nawdd Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a minnau'n diwtor yno ar wahoddiad cyfarwyddwr trac, sef y corff hybu traddodiadau gwerin Cymru.

Roedd lle i bawb. Doedd dim rhaid i neb feddwl amdano'i hun fel cantor mawr, dim ond cantor oedd â diddordeb mewn carolau traddodiadol. Doedd dim rhaid i bawb ganu, hyd yn oed: roedd rhai yn dymuno gwrandao yn unig, a chlywed am yr hen draddodiadau oedd yn arfer bod gynt yn rhan o'r dathliadau Mai. Nid oedd y sawl nad oeddynt yn feistriaid ar y Gymraeg yn cael eu cau allan ychwaith, na'r rhai oedd yn gwybod dim Cymraeg o gwbl. Amcan y diwrnod oedd gwneud cerddoriaeth draddodiadol Cymru yn hygyrch i bawb. O'r herwydd, dechreuodd y diwrnod gyda sesiwn ynganu i ddysgwyr ac i'r di-Gymraeg, a hwnnw'n cael ei ddilyn gan y gweithdy canu, sef dysgu'r carolau a deall eu cefndir.

Mae *repertoire* arbennig o ganeuon a dawnsfeydd yn perthyn i'r dathliad hwn i groesawu'r haf. Aeth nifer o'r carolau Mai yn angof dros y ganrif ddiwethaf felly manteisiwyd ar y cyfle i fynd yn ôl at wreiddiau pethau ac i hau hadau yn y gobaith y gellid atgyfodi mewn mannau draddodiad hapus a hwyliog. Craidd ein casgliad carolau oedd cyfrol W. S. Gwynn Williams *Canu Haf*, gydag ambell ychwanegiad llwyddiannus. Un o'r ychwanegiadau hynny oedd 'Haf-gân' Twm o'r Nant.⁴ Fe'i canwyd, yn unol â chyfarwyddiadau brenin yr anterliwtwyr, ar yr alaw 'Spain Wenddydd', neu 'Spanish Gypsy'. Cyhoeddir isod fersiwn y gyfrol *Alawon fy Ngwlad*,⁵ a hefyd drefniant pedwar llais a luniwyd yn unswydd ar gyfer gweithdy Sain Ffagan gan Dulais Rhys: diolchir yn gynnes am ei ganiatâd caredig i'w gyhoeddi yma.

Sbaen Wenddydd

Thomas Edwards (Twm o'r Nant)

Hen Garol Gymreig
trefniant Dulais Rhys

SOPRANO
ALTO



1.Y teu - lu mwyn hael - gu mewn hedd, rhowch os - teg, rai glan-deg eu
2.Mae'r ddae - ar oedd fy-ddar,wedd fud, Mae'r coe-dydd,mae'r bron-nydd mawr
5.Mae'r holl gre - a - di-gaeth fel drych, rhai deim-lant a we-lant yn
8.Cyn - hyr-fwn, a gwe-lwn mai gwir y cawn fei-rw, cwyn a - rw, cyn

TENOR
BAS



gwedd, I ddat-gan un haf - gan yn hy, hen dir - ion ar - fer - ion a fu; Mewn
bryd, Mae'r dyff-ryn yn deff-ro ei holl wraidd, mae e - gin-oedd y gwe-nith a'r haidd, Mae'r
wych Bod po-peth'ndat- gudd-io'n gyt - ūn ddai - o - ni'r Cre - aw-dwr ei hun; Ond
hir; Gwy-bydd-wn na ffae-liwn yn ffôl, mae'r byw - yd trag-wydd-ol yn ôl; Ym -



llaw - er tŷ roedd cen - nad da - ac en - w hyf i ga - nu Ha, fel
llaeth a maidd, mae llwy - thaumwyn o ffrwy - thydd haf yn ffraeth ym-ddwyn, Mae
na - tur dyn sy fwy - a dall tan gw - mwl bwlch - der o - fer wall, Ni
wnawn mewn rhol am ffrwy - thau'r Ha, lle gor - fo - ledd di - wedd da;



pob cre - a - dur sy'n ei ryw ag a - ml don yn can - mol Duw.
pob cre - a - dur yn ei ryw ag a - ml don yn can - mol Duw.
fyn ddar - os - twng o'i dda ryw un cy - mal dewr er can - mol Duw.
Dy - na'r fan lle ca - ffrom fyw, A - men, a 'stad, ym myn - wes Duw.



Cysodwyd gan Gyhoeddwr Cerddoriaeth t d r' +44(0)1267 232338 t-d-r.biz

SPAIN WENDDYDD - Spanish Gipsy

Allegretto.



Hafgan

Alaw: Sbaen Wenddydd

1. Y teulu mwyn hael-gu mewn hedd,
Rhowch osteg, rai glandeg eu gwedd,
I ddatgan un hafgan yn hy,
Hen dirion arferion a fu;
Mewn llawer tŷ roedd cennad da
Ac enw hyf i ganu Ha,
Fel pob creadur sy'n ei ryw
Ag aml dôn yn canmol Duw.
2. Mae'r ddaear oedd fyddar, wedd fud,
Mae'r coedydd, mae'r bronnydd mawr bryd,
Mae'r dyffryn yn deffro ei holl wraidd,
Mae eginoedd y gwenith a'r haidd,
Mae llaeth a maidd, mae llwythau mwyn,
O ffrwythydd haf yn ffraeth ymddwyn,
Mae pob creadur yn ei ryw
Ag aml dôn yn canmol Duw.
3. Gan hynny gwnawn synnu mhob swydd,
Ystyriwn a gwelwn i'n gŵydd
Ddoethineb dawn undeb Duw Ne
Yn trefnu pob peth yn ei le,
Y mawr dymhorau, ffrwythau ffri,
Er hynny anufudd ydym ni,
A phob creadur yn ei ryw
Ag aml dôn yn canmol Duw.

4. Rhod inni, heb brofi mo'r braw,
Bob mwynder a llawnder i'n llaw;
'Nifeiliaid a defaid ar dir,
Y rheini sy'n hardd inni'n wir;
Pob peth yn glir i'n porthi'n glau,
A ninnau er hyn heb 'difarhau,
A gweled pob creadur gwiw
Ag aml dôn yn canmol Duw.
5. Mae'r holl greadigaeth fel drych,
Rhai deimlant a welant yn wych
Bod popeth 'n datguddio'n gytûn
Ddaioni'r Creawdwr ei hun;
Ond natur dyn sy fwyda dall
Tan gwmwl balchder ofer wall,
Ni fyn ddarostwng o'i dda ryw
Un cymal dewr er canmol Duw.
6. Pa beth yw rhyfeloedd y byd
Ond balchder ac uchder i gyd?
Fel 'r angel nerth uchel wnaeth ef
I ormesu teyrnasu tu'r nef;
A dyna'r llef sydd fyth rhagllaw
Yn ffrwd gyffredin drycin draw,
O eisiau bod yn Iesu byw
Bob cymal dewr yn canmol Duw.
7. O! rhyfedd yw'n buchedd trwy'r byd
Mewn gwagedd a llygredd a llid,
Heb geisio gwir deimlo gair Duw
Sy'n ein galw ni o feirw i ail fyw;
Ond Och! Mae'n clyw ni wedi cloi,
Ac ysbryd dall i 'mbaratoi;
Rym ni yn gysglyd oerllyd ryw
Ac eisiau'n deffro i ganmol Duw.
8. Cynhyrfwn, a gwelwn mai gwir
Y cawn feirw, cwyn arw, cyn hir;
Gwybyddwn na ffaeliwn yn ffôl,
Mae'r bywyd tragwyddol yn ôl;

Ymwnawn mewn rhol am ffrwythau'r Ha,
Lle mae gorfoledd diwedd da;
Dyna'r fan lle caffom fyw,
Amen, a 'stad, ym mynwes Duw.

Thomas Edwards 'Twm o'r Nant' (1739–1810)

Cafodd pawb gopïau o'r carolau i fynd gartref gyda hwy, yn y gobaith y byddai Cymru'n deffro i sŵn y carolau ar Galan Mai eleni. Ac yn wir aeth criw o tua phymtheg ohonom allan i ganu Mai drwy strydoedd Aberystwyth ar fore Llun, Gŵyl y Banc. Yn y dyddiau a fu arferid mynd o gwmpas cartrefi'r gymdogaeth yn ogystal ag o gwmpas y dref i gyfarch Mai, a hynny ar fore'r dydd cyntaf o'r mis. Dim ond cylchu'r dref a wnaeth y cantorion hyfforddedig cyfoes, a hynny ar fore Llun, 3 Mai 2009. A ellir cyfiawnhau'r dyddiad? Gellir yn sicr, o gofio'r cyflwyniad a ganlyn i adran garolau Mai *Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol* (t. 217):

Yma y dechrau amryw o garolau Duwiol dan yr enw Carolau Haf y rhain fo gymwys i'w Canu tan Barwydydd y Boreuau ym Mis Mai yn enwedig ar foreuddydd Calanmai.

Sylwer ar *yn enwedig*, yn hytrach nag *yn unig*.

Bu rhai ohonom allan yn canu Mai rai troeon o'r blaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn – ar y Prom yn Aberystwyth, o flaen siop Woolworths pan oedd honno i'w chael (roedd hi'n chwith iawn ar ei hôl eleni), ac o dan y cloc mawr ym mhen uchaf y dref. Deuai llawer o ymwelwyr atom i gael esboniad ar y canu ac ar y traddodiad. Oherwydd hynny dewiswyd llefarydd huawdl i siarad ar ein rhan, ac i esbonio'r ddefod Fai. Un flwyddyn (fel eleni eto) roedd Cynog Dafis ymysg y criw. Ar y pryd roedd yn Aelod Seneddol ac yn Aelod Cynulliad, ond yn bwysicach na hynny ar y diwrnod gydag ef yr oedd y llais mwyaf diasbedol. Galwai ar y dyrfa i wrando a dywedai air neu ddau am ambell garol – a'i lais yn cario o un pen y prom i'r llall!

Eleni dechreuwyd canu ar sgwâr Aberystwyth, tu allan i Siop y Pethe. Yn ogystal â phwysi o flodau roedd gennym ganghennau Mai wedi eu haddurno â rubanau, a chlymwyd ambell gangen wrth arwyddbost oedd wedi'i fwriadu'n wreiddiol ar gyfer cyfeirio ymwelwyr tuag at y castell ac at amrywiol ogoniannau eraill y dref. Nid oedd y tywydd o'n plaid. Gweler isod luniau o'r criw tu allan i Siop y Pethe – canghennau a blodau yn un llaw ac ymbarél yn y llall. (Diolchir i Einion Dafydd am ei ganiatâd i gyhoeddi'r lluniau yma.)



Cárnifal a phawl haf Llanfyllin: y Frenhines (Gladys Roberts) a'i gosgordd yn gwyllo'r dawnswyr haf ar y Llungwyn, 1940

Llun: Geoff Charles (trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)



O'r chwith i'r dde: Brenda Williams, Megan Hughes, Felicity Roberts, Rhiannon Ifans, Ann-Marie Hinde, Ray Jones, Lawrence Tyler, Bear Tyler, Cynog Dafis, Catherine Young, Meredydd Evans, Phyllis Kinney, Chris ?, Llinos Dafis, Gwilym Tudur

Llun: Einion Dafydd



O'r chwith i'r dde: Lawrence Tyler, Bear Tyler, Cynog Dafis, Catherine Young
Llun: Einion Dafydd



O'r chwith i'r dde: Lawrence Tyler, Cynog Dafis, Gwilym Tudur, Chris ?
Llun: Einion Dafydd



O'r chwith i'r dde: Brenda Williams, Megan Hughes, Rhiannon Ifans, Dana Edwards
Llun: Einion Dafydd



O'r chwith i'r dde: Chris ?, Felicity Roberts, Gwilym Tudur (yn y cefndir), Ann-Marie Hinde, Llinos Dafis
Llun: Einion Dafydd



Un o'r cynulleidfaoedd gwerthfawrogl!
Llun: Einion Dafydd



O'r chwith i'r dde: Dana Edwards, Rhiannon Ifans, Cynog Dafis, Llinos Dafis, Megan Hughes, Felicity Roberts, Lawrence Tyler, Brenda Williams, Gwilym Tudur, Ann-Marie Hinde, Chris ?, Catherine Young, Ray Jones, Bear Tyler
Llun: Einion Dafydd

Gorymdeithiodd y criw soniarus draw at yr orsaf (i groesawu pobl oddi ar y trê) dan ganu'r pennill:

Fy ladal i a'i ladal o
A'r ladal gawsom fenthyg;
Cynffon buwch a chynffon llo,
A chynffon Richard Parry;
Hac, ha wen!

Draw wedyn i'r Prom ac i'r Belle Vue – lle roedd rhai cantorion yn llechu rhag y cawodydd!

Yn hanesyddol canwyd canran uchel iawn o gerddi Mai ar y mesur 'Mwynen Mai'. Cynigiwyd uchod fesur gwahanol, ond un hynod ysgafn a deniadol. Prif fyrdwn geiriau Twm o'r Nant yw cyfarch teulu'r cartref lle cenid y gân tu allan i ddrws y tŷ, a'u hannog i ystyried y mawr dda a ddaethai i'w rhan yn ystod y flwyddyn. Yn sgil hynny fe'u cymhellir i leisio eu gwerthfawrogiad i'r Duw a roes y cynnydd hwnnw i ddynoliaeth. Nodwedd gyson ar y rhelyw o'r esiamplau o ganu Mai Cymraeg yw priodoli'r cynnydd ym myd natur i Dduw, lle efallai y disgwyliid i'r carolwyr briodoli llawnder y ddaear i dduw neu dduwies natur. Tynnwyd sylw at hyn gan aelod o'r gweithdy sy'n bagan, a mynegodd awydd i ganu carolau o natur wahanol i'r templad Cymreig arferol. Ac wrth gwrs y symbol rhyngwladol arferol o ffrwythlonedd mawr y ddaear yw'r darlun o fam-dduwies. Roedd iddi enw gwahanol yn y gwahanol ddiwylliannau, yn eu plith Ceres yn Rhufain, Demeter yng Ngwlad Groeg, Astarte yn Syria, Cybele yn Phrygia, Ishtar ym Mabilon, ac Isis yn yr Aifft. Ond mae mwyafrif llethol yr hafganeuon Cymraeg a oroesodd yn tadogi daear ffrwythlon Cymru ar Dduw'r Beibl. O graffu'n fanylach ar deitlau rhai o'r carolau Mai ni ddylai hynny beri syndod: 'Carol Haf mewn amser Rhyfel yn annog i Edifeirwch' yw teitl carol Wmffre Dafydd ab Ifan; 'Carol Haf yn annog i glodfori Duw' yw teitl carol Richard Abraham.

Mae Twm o'r Nant yntau'n canmol gwedd y ddaear ffrwythlon, ond ar yr un gwynt mae'n gresynu at ryfyg dyn yn parhau yn ei anufudd-dod i Dduw ac yn gwrthod edifarhau am hynny. A'r rheswm dros styfnigrwydd yr unigolyn?

Ond natur dyn sy fwy a dall
Tan gwmwl balchder ofer wall,
Ni fyn ddarostwng o'i dda ryw
Un cymal dewr er canmol Duw.

'Balchder sydd yn myned o flaen dinistr'⁶ meddai'r hen air, a phennill rhybuddiol sy'n cloi carol Twm o'r Nant. Yr oedd Cymry'r Oesoedd Canol wedi eu magu ar y '*Dies irae*, *Dies illa*' a materion cysylltiedig, ac i gynulleidfaoedd Cymru dros y canrifoedd nid oedd dim byd yn anghyffredin mewn myfyrio ar angau, y bedd, a'r byd a ddaw.

Gosodwyd y dynghedfen fod pawb i farw, ac i ateb dros ei rawd ddaearol, yn gysgod dros fywyd pob unigolyn. Ond mae her a brwdfrydedd, yn ogystal â rhybudd dwys, ym mhennill olaf yr anterliwtiwr.

I gloi'r garol Fai draddodiadol, ac yn wahanol i 'Hafgan' Twm o'r Nant, mae i nifer o'r carolau Mai fyrdwn sy'n gofyn bendith Duw ar y frenhiniaeth, ac ar Eglwys Loegr. Anrhydeddir y brenin ynddynt waeth beth oedd safon a natur ei deyrnasiad, gan ei ddefnyddio'n symbol cadarn o'r wlad: os yw'r naill yn ffynnu, fe ffynna'r llall hefyd. Dyma enghraifft o fyrdwn o garol Fai o waith Rees Ellis (1736):

Byrdwn:
Duw, cadw'n brenin grasol,
George dy was dewisol,
I lywodraethu'i bobol
Yn dduwiol yn ei ddydd,
A chadw Eglwys Loegr
A'r bonedd sydd bob amser
Yn taro ym mhlaid cyfiawnder
Heb ffalster yn eu ffydd.

Erbyn heddiw mae'r byd yn lle gwahanol i'r hyn ydoedd yn 1736, a'i ddeiliaid yn coleddu bydolwg bur wahanol hefyd. Er bod y cantorion i gyd yn hapus iawn i ganu geiriau'r penillion, afraid dweud bod criw Aberystwyth wedi gwrthod yn deg â chanu'r byrdwn yn gyhoeddus yn y strydoedd, a hyd yn oed yn yr ymarferion ymlaen llaw unwaith y deallwyd ei gynnwys.

Nid gweddïo dros y brenin a'r Eglwys yn unig a wneid. Cyn ymadael â'r cartref tasg hanfodol i'r carolwyr fyddai dymuno bendith ar y cartref a'r trigolion, ac ar eu heiddo, yn anifeiliaid, cnydau, a ffrwythau gardd a maes. Yn dâl am daenu bendith fe ddisgwylid 'calennig', ac fe'i ceid yn hael.

Yn dwyn cyswllt agos â'r carolau yr oedd y dawnsio Mai a mwynheid yn sgil hynny, ar dro, un arall o brif atyniadau Calan Mai, sef gosod y pawl haf. Digwydd y cyfeiriad cyntaf at yr arfer hwn yng nghywydd enwog Gruffudd ab Adda (bl. 1340–1370) 'Y Fedwen yn Bawl Haf' lle y disgrifir bedwen yn cael ei chodi o'r ddaear a'i gosod yng nghanol tref Llanidloes yn bawl haf:

Ni chwsg aderyn, ni chân,
Meinlef ar dy frig mwynlan,
Gan amled fydd, chwaer gwŷdd gwyll,
Trwst y bobl tros dy bebyll.
Gwyllt glwyf, ac ni thyf gwellt glas
Danat gan sathr y dinas.⁷

Dawnsio defodol gan dîm dethol oedd yr arfer, a'r pwrpas oedd croesawu Mai. Buddiol fyddai dyfynnu yma dystiolaeth John Jones 'Myrddin Fardd' a gofnododd ei argraffiadau o'r ddefod fel y'i harferid yn sir Gaernarfon 'yn yr amser gynt' fel y dywed wrth ysgrifennu tua'r flwyddyn 1908:

Mai y 1af oedd dydd Pawl Mai, pryd yr arferid codi y *Fedwen Haf*, neu fel y gelwid hi mewn rhai manau, y *Fedwen Ifan*. Ar ol paratoi y *Fedwen*, rhoi cylchau o rubanau o'r cwr isaf i'r cwr uchaf, ei haddurno âg oriaduron, llestri arian, ei chodi, &c., byddai pob un yn cymmyrd ei le yn y ddawns, yn ol lle ei gylch ar y Fedwen. Byddai yr ieuengctyd yn arfer gwisgo eu hunain mewn dillad amryliw ar foreu cyntaf o Fai, ac er mwyn gwneyd y difyrwch yn gyflawn, gofalid am grythor neu delynor i fod yn bresennol. Dygid y gwyliau chwareuol hyn yn mlaen yn y trefi ar draul y corfforiaethau, ac yn y wlad ar draul y plwyfi. Mewn rhai manau, ffurfiai rhyw ddwsin a hanner o ddynion mewn oed yn gwmni, i fyned o dŷ i dŷ oddeutu tref a gwlad, i ddawnsio yr haf i mewn, gan gardota fel rhai 'ag awdurdod' ganddynt! Byddai llwyddiant arianol yr anturiaeth yn dibynu, i raddau helaeth, ar yr 'hen Ffwl,' a'r 'hen Gadi,' y rhai ag y byddai coelbren goruchwyliaeth y cardota gwedi syrthio arnynt. Byddai yr 'hen Ffwl' wedi ymwisgo yn hynod, yn cario yn un llaw luman cyfrin yr urdd, yn orchuddiedig oll âg arwyddluniau yr haf, ac yn y llaw arall yn cario cwpan bren hirgoes i ddal yr offrwm! Yr oedd yr 'hen Gadi' wedi hyny yn hynod ddigrifol mewn gwisg hen wraig, ag ysgub yn ei llaw – i gadw y llawr yn lân i'r cwmmi ddawnsio arno, ac i gadw yr edrychwyr draw, ac yn benaf oll i fygwth arian o logellau pawb ddalai i gyffyrddiad â hi; a gwae y sawl a droai glust fyddar ati!⁸

Ni oroesodd lluniau niferus o ddawnsfeydd o gylch y pawl haf yng Nghymru, ond gweler y ffotograff diddorol iawn a dynnwyd ddydd Llun, 13 Mai 1940. Dyma gârnifal a phawl haf Llanfyllin a gynhaliwyd ar y Llungwyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a disgyblion ysgol uwchradd Llanfyllin (merched i gyd), mewn gwisg ysgol, yn dawnsio o gwmpas y pawl tu allan i Fanc y Midland. Dawnsir ym mhresenoldeb y Frenhines Fai a'i gosgordd (Gladys Roberts, Pen-y-bont-fawr, merch Mr a Mrs Llewelyn Roberts, The Stores), sydd wedi eu gwisgo'n ysblennydd. Nid oes na Ffwl na Chadi i'w gweld yn casglu arian y dorf yn ffotograff Geoff Charles, ond mae'r acordion sy'n cyfeilio i'r dawnsio i'w weld yn ddigon amlwg.

NODIADAU

¹ Thomas Jones, *Llyfr Carolau a Dyrïau Duwiol* (Amwythig, 1696), tt. 265–84.

² David Jenkins, 'Carolau Haf a Nadolig', *Llên Cymru*, II (1952–3), 46–54.

³ W. Emrys Cleaver, 'Canu a Chyflwyno'r Alaw Werin', *Canu Gwerin*, 3 (1980), 6.

⁴ *Gardd o Gerddi* (Merthyr Tydfil, 1826), t. 86.

⁵ Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (London, 1896), t. 145.

⁶ Llyfr y Diarhebion xvi.18.

⁷ Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Rhydychen, 1962), tt. 90–2.

⁸ John Jones ‘Myrddin Fardd’, *Llên Gwerin Sir Gaernarfon* (Caernarfon, [1908]), tt. 254–5.

LONA GREEN

Rhidian Griffiths



Dros y blynyddoedd deuthum i nabad llawer o bobl trwy gyfrwng eu haelodaeth yn y Gymdeithas, er mai rhannol yn aml oedd yr adnabyddiaeth honno. Byddai rhai'n ymaelodi am gyfnod byr, eraill yn talu eu haelodaeth yn gyson, ac eraill yn ymaelodi ac yn mynychu digwyddiadau'r Gymdeithas yn selog. I'r dosbarth olaf y perthynai Lona Green. Ers sawl blwyddyn bellach bu'n dod i'r Gynhadledd Benwythnos, a'i phresenoldeb swynol a thawel yn melysu'r cwmni.

Er mai yng Ngogledd Cymru yr oedd ei gwreiddiau, bu'n byw ers blynyddoedd yn Keyworth, Nottingham, ac yn ffyddlon iawn i weithgareddau'r Cymry yn y cylch hwnnw. Cawsom y pleser o gwmmi ei mab Steffan yn ein cynadleddau hefyd, a chefais innau gwrdd â'r ddau ohonynt yn y Llyfrgell Genedlaethol pan oeddynt wrthi'n olrhain achau'r teulu. Cofiaf yn dda am un sgwrs gyda Lona lle y soniodd wrthyf am ei chefnder David, a oedd yn byw yn Abertawe yng nghyfnod fy mhentyndod yno.

Felly y bydd cortynnau perthynas yn cydblethu. Down i nabad rhai, mwynhau eu cwmni, ac yna eu colli. Bu farw Lona wedi cystudd byr ym mis Chwefror 2009, a chwith iawn fydd peidio â chael ei chwmmi yng nghynadleddau'r Gymdeithas yn y dyfodol. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i theulu, diolchwn am ei ffyddlondeb a'i chyfeillgarwch, a daliwn i gofio'n llawen amdani.

Adolygiadau




Gwenan Gibbard, *Sidan Glas* (Sain SCD 2581)

Gyda chyhoeddi *Y Gwenith Gwynnaf* (Sain SCD 2504) yn 2006 gwelwyd bod talent newydd o bwys yn ffurfafen y byd gwerin Cymraeg, ac mae hen ddisgwyl wedi bod am yr ail albwm hon gan Gwenan Gibbard. Mae'r casgliad hwn yn dangos ei doniau fel telynores, fel cantores, fel trefnydd, ac fel cyfansoddwraig.

Dyma gasgliad blaengar o drefniannau newydd a chyffrous o'n caneuon a'n halawon gwerin, gyda'r chwarae a'r canu wedi ei wreiddio'n ddwfn yng nghalon y traddodiad ac eto'n ffres a chyfoes. Yn gyfuniad perffaith o fywiogrwydd yr alawon dawns traddodiadol, ynghyd â'r hen benillion telyn a hiraeth a theimlad y caneuon gwerin, dangosir yma amrywiaeth a chyfoeth y traddodiad gwerin Cymreig ar ei orau. Fe glywir sawl cân ac alaw anghyfarwydd – caneuon a fu'n boblogaidd sawl blwyddyn yn ôl; clywir hefyd alawon anghyhoeddedig o blith llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru – y cyfan wedi'u trefnu yn llawn gwreiddioldeb a newydd-deb gydag elfennau croesacennog a harmonïau atyniadol. Mae yma hefyd ganeuon ac alawon sydd wedi eu cyfansoddi o'r newydd, yn ychwanegiad gwerthfawr i'r *repertoire* traddodiadol.

Yn ymuno â Gwenan mae criw o gerddorion amryddawn: y gitarydd Maartin Allcock (Jethro Tull, Fairport Convention, The Bad Shepherds), y ffidlwyr Stephen Rees (Crasdant), y ffliwtydd Dafydd Roberts (Ar Log), y ffidlwraig Angharad Jenkins (Calan), a chlywir Dewi Ellis Jones a'r cerddor Indiaidd Kuljit Bhamra (Bombay Dreams) ar yr offer taro. Y canlyniad yw cyfanwaith amryliw a chyfoethog, ond un sy'n cadw'n driw i ysbryd ac anian y traddodiad gwerin Cymreig gan sicrhau lle blaenllaw i'r delyn a'r llais.

Cryfder Gwenan Gibbard fel artist yw ei bod wedi ei thrwytho ymhob agwedd ar y traddodiad Cymreig, ac ar *Sidan Glas* llwyddda i wau'r holl agweddau hynny'n un tapestri lliwgar sy'n apelio at y pen a'r galon.



Bob Roberts 'Tai'r Felin' gyda John Thomas 'Maesyfedw' a thrac ychwanegol gan Moi Tai'r Felin ac Arthur D. Jones (Sain SCD 2608)

Mae Sain yn ei chyfri'n fraint i gael cyhoeddi'r casgliad newydd hwn o ganeuon Bob Tai'r Felin, a hynny ar achlysur cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym mro'r canwr ei hun. Clywir yma hefyd lais ei gyfaill John Thomas, Maesyfedw, ac yn ychwanegol at y casgliadau gwreiddiol a gyhoeddwyd ar label Sain yn y gorffennol, ychwanegwyd trac arall gan Bob Roberts ('Wele frân yn dechrau nythu'), a thrac unigryw o fab Bob, Moi Tai'r Felin, yn canu deuawd gydag Arthur D. Jones, Alltygwine, Llanuwchllyn. Mae'r recordiad hwn, a wnaed yn Alltygwine yn y 50au, yn dangos sut y trosglwyddwyd dawn y tad i'r mab, gyda dogn helaeth o hiwmor oedd yn gwbl nodweddiadol o'r traddodiad. Diolch i Carys, merch Moi ac wyres Tai'r Felin, am y traciau ychwanegol. Braint hefyd yw cael atgynhyrchu cyflwyniadau coeth Robin Williams i'r ddwy albwm wreiddiol, a chwith meddwl bod y talentau disglair hyn i gyd bellach wedi mynd o'n plith. Ond erys yr atgofion am eu hathrylith, a diolch i'r oes ddigidol hon erys eu lleisiau hefyd, ac mae'r atgofion a'r lleisiau fel ei gilydd yn amhrisiadwy.

Trem yn ôl

Cip ar y Cwrs Preswyl (fel y gelwid y Gynhadledd bryd hynny) yng Ngregynog, a fu'n gartref hapus iawn i'r cynadleddwyr am flynyddoedd lawer. Cynhaliwyd llawer noson ddiddan yn y seler, megis yr un isod yn 1983.



Rhidian Griffiths, Robin Huw Bowen, Menna Thomas, Dafydd Idris, Alun Davies (Caerdydd)



W. Rees Howells, y barmon

